



# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

## Adroddiad Blynyddol 2021 - 2022







Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
One Powys Yn Un
Powys Regional Partnership Board
Health and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYNNWYS




- CRYNODEB GWEITHREDOL — TUDALEN 3
- RÔL A PHWRPAS Y BWRDD — TUDALEN 4
- Y STRATEGAETH IECHYD A GOFAL — TUDALEN 5
- BWRW YMLAEN Â BLAENORIAETHAU — TUDALEN 6
- STRWYTHUR Y BWRDD — TUDALEN 7
- AELODAETH Y BWRDD — TUDALEN 8
- CYNNYDD A CHYFLAWNIADAU ALLWEDDOL — TUDALEN 9
- DECHRAU'N DDA — TUDALEN 17
- BYW'N DDA — TUDALEN 22
- HENEIDDIO'N DDA — TUDALEN 29
- GWAITH TRAWSBYNCIOL — TUDALEN 35
- YMATEB I'R GAEAF A CHADERNID SYSTEMAU — TUDALEN 42
- NEILLTUO ADNODDAU AR GYFER Y GWAITH — TUDALEN 44
- EDRYCH YMLAEN — TUDALEN 45

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn falch o gyflwyno ei adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o'r prif gyflawniadau yn ystod 2021/22. Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol i'r Bartneriaeth. Mae pandemig Covid-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar fywydau pawb. Mae wedi bod yn ofynnol i ni i gyd ddod o hyd i wahanol ffyrdd o weithio.

Mae'r BPRh yn parhau i gefnogi dull integredig o weithio gyda'n gilydd gydag arweinyddiaeth ar draws y sector ac ymrwymiad a rennir cryf i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, integredig, sy'n cefnogi pobl ar hyd eu hoes a gwella canlyniadau i bobl ym Mhowys.

Er gwaethaf Covid-19, mae gan y bartneriaeth lawer i'w ddathlu. Mae'n parhau i wneud cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau, fel y nodir yn y Strategaeth Iechyd a Gofal 'Powys Iach a Gofalgar'. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw datblygiad Rhaglen Lles Gogledd Powys a'r Academi Iechyd a Gofal. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi defnyddio technoleg yn fwy drwy gyflymu'r rhaglen Digidol yn Gyntaf sydd wedi optimeiddio gweithgarwch gweithredol mewn cymaint o ffyrdd.

Mae cyfleoedd digidol wedi bod yn arbennig o fuddiol wrth gefnogi dull ehangach o ymgysylltu â phobl o bob rhan o Bowys i helpu i lywio a hysbysu darnau allweddol o waith partneriaeth drwy'r flwyddyn. Er y cydnabyddir bod opsiynau wyneb yn wyneb yn bwysig, mae defnyddio Engagement HQ - ein platfform digidol newydd i ymgysylltu â phobl ar amrywiaeth o faterion – wedi helpu partneriaid i gryfhau eu dulliau ymgysylltu ac yn cefnogi llais cryfach i bobl ym Mhowys lunio a dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae cyfleoedd sylweddol o hyd ar gyfer gwaith integredig pellach rhwng Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Powys a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r adborth gan bobl Powys ynghyd â chanolfannau tystiolaeth newydd, yn parhau i gefnogi dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau fel ffordd o symleiddio a gwella profiad pobl ar draws yr holl system iechyd a gofal.

Yn yr un modd, mae ymdrechion yn parhau i nodi cyfleoedd i leihau teithio allan o'r sir a dod â gofal yn nes at adref drwy ddatblygu gwasanaethau sy'n darparu mwy o ofal a chefnogaeth yn y gymuned, atal cynnydd mewn angen a chadw pobl yn iach.

Yn ystod y gaeaf roedd pwysau eithafol ar y system iechyd a gofal, yn enwedig i'r gweithlu. Bu gan y BPRh rôl bwysig wrth gynnig lle i gydlynu ymateb wedi ei gynllunio ar draws partneriaid a chefnogwyd gweithrediad hyn trwy'r trefniadau partneriaeth ehangach, a ategir gan ethos partneriaeth gref. Mae'r Bartneriaeth wedi adlewyrchu ar yr hyn a weithiodd yn dda fel rhan o'r dull hwn i helpu i lunio'r gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf anodd arall sydd o'n blaenau.

Mae llawer i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys a'i holl aelodau fod yn falch ohono eleni, ac mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ar y cynnydd a wnaed gan hefyd gydnabod bod mwy i'w wneud wrth fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau i bobl Powys.

# RÔL A PHWRPAS Y BWRDD


Mae Bwrdd Partneriaeth  Rhanbarthol Powys (BPRh) yn dwyn ynghyd ystod o gynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus a phobl allweddol eraill gan gynnwys dinasyddion, er mwyn sicrhau bod asiantaethau'n cydweithio'n well i wella iechyd a lles pobl Powys. Yn ei Gylch Gorchwyl, mae gan y BPRh ddatganiad o fwriad sy'n nodi'r hyn mae'n ceisio'i gyflawni:



- Creu momentwm ar gyfer gwelliannau critigol, drwy nodi blaenoriaethau allweddol i ddinasyddion Powys a chanolbwyntio ymdrechion i sicrhau eu bod yn cael sylw
- Cynyddu'r pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal drwy annog dinasyddion i reoli a pherchnogi materion iechyd a lles er mwyn lleihau'r angen cynyddol
- Sicrhau bod llais y dinesydd nid yn unig yn cael ei glywed ond ein bod yn gweithredu arno i wella gwasanaethau
- Defnyddio gwybodaeth am anghenion dinasyddion yn y dyfodol wrth gynllunio gwasanaethau ar draws y sbectrwm o angen a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i'r eithaf drwy ymgysylltu'n ddoeth â chyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch tebyg
- Sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol drwy weithlu a gwirfoddolwyr medrus a brwdfrydig
- Hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal a chymorth rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd
- Sicrhau cyd-gynhyrchu a chomisiynu gwasanaethau gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n hyrwyddo gwasanaethau cysylltiedig a di-dor yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd
- Meithrin arferion newydd arloesol a hyrwyddo diwylliant dysgu
- Sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith i bontio'r bwlch rhwng cyfathrebu sefydliadol a chyhoeddus ar gynllunio a chyflawni gwasanaethau

# STRATEGAETH IECHYD A GOFAL

Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei lywio gan Strategaeth Iechyd a Gofal Powys, sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal ym Mhowys hyd at 2027. Mae hyn yn cadw pwyslais y gwaith ac yn helpu i lywio buddsoddiad. Drwy gydweithio, mae'r bartneriaeth yn gobeithio creu dyfodol lle mae pawb ym Mhowys yn cael y cyfle gorau i fyw bywydau iach, llawn ac annibynnol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl Powys wedi'i ddweud am eu hiechyd a'u gofal, a'r hyn sy'n bwysig iddynt.




.

# BWRW YMLAEN Â BLAENORIAETHAU


Nod y bartneriaeth yw helpu pobl ym Mhowys i 'Ddechrau'n Dda', 'Byw'n Dda' a 'Heneiddio'n Dda' drwy ganolbwyntio ar lesiant, cymorth a chefnogaeth gynnar, mynd i'r afael â'r pedair her iechyd fawr, a darparu gofal cydgysylltiedig gwell. Dyma sut mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu:




**Datblygu Cymunedol**
Gweithio gyda chymunedau lleol sydd wedi'u cysylltu'n gryf i ddatblygu a chryfhau asedau cymunedol sy'n cefnogi lles pobl.

**Cefnogi Gofalwyr**
Sicrhau lles gofalwyr cyn, yn ystod ac ar ôl gofalu drwy wybodaeth, cyngor a chymorth, cefnogi sgiliau a datblygu hyfforddiant, cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, seibiant a chymorth cymunedol.


**Atal a Gwella Iechyd**
Galluogi a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau a chymryd camau i wella eu hiechyd a'u lles ac osgoi neu leihau afiechyd drwy, er enghraifft, atal ysmygu neu gynyddu gweithgarwch corfforol.




**Mynd i'r Afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**
Gweithio gyda theuluoedd i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf o fewn 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn, gan ganolbwyntio ar atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

**Gofal Sylfaenol**
Gweithio o fewn y clystyrau a'r trydydd sector i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar y boblogaeth o gynllunio a darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y bartneriaeth yn integreiddio gofal sylfaenol ymhellach ac yn gwella hygyrchedd drwy ganolfannau cymunedol.

**Rheoli Cyflyrau Hirdymor**
Cefnogi pobl i nodi a ydynt mewn perygl o ddatblygu clefyd, a'u helpu i leihau'r risg a'i effaith drwy fabwysiadu dull system gyfan ehangach o reoli'r cyflwr




**Cydlynu Gofal**
Parhau i adeiladu ar lwyddiant safleoedd tîm integredig a datblygu'r rhain ymhellach ar draws y sir yn unol â'r canolfannau rhanbarthol a chanolfannau cymunedol.

**Gofal Heb ei Drefnu**
Lleihau mwy o dderbyniadau brys y gellir eu hosgoi ac ail-dderbyn pobl â chlefyd cronig a'r henoed bregus.

**Model gofal newydd**
Asesu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau, a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu Canolfan Wledig Ranbarthol ymhellach sy'n darparu iechyd a gofal integredig i'r boblogaeth.

**Gofal a Gynllunnir yn Nes at Adref**
Atal pobl rhag gorfod mynd allan o'r sir i dderbyn iechyd a gofal a dod â phobl sydd angen gofal a chymorth arbenigol y tu allan i'r sir yn ôl yn nes at adref.




**Iechyd Meddwl**
Ar draws pob haen, o hybu iechyd hyd at wasanaethau arbenigol, rydym yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys ymhellach.

**Canser, Anadlol a Chylchredol**
Datblygu gwasanaethau ymhellach i ganolbwyntio ar sgrinio cynnar, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i sicrhau cyfeirio priodol at gymorth a chefnogaeth. Canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cyfannol pobl drwy weithio mwy integredig a modelau gweithlu newydd. Cyflawnir y gwaith hwn yn bennaf drwy Gynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.

# STRWYTHUR Y BWRDD

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, mae'r Bwrdd hefyd yn gweithio i gyflawni'r canlynol:




**Model Staffio**
Bydd manteisio i’r eithaf ar rôl y gweithlu ar draws pob sector gan gynnwys gofalwyr drwy ddull integredig yn hanfodol i gyflawni'r model gofal newydd. Bydd modelau arloesol newydd yn seiliedig ar swyddi aml-sgiliau gan sicrhau newid i atal ac ymyrryd yn gynnar.

**Ymgysylltu â Staff a Phartneriaid**
Datblygu dull ar y cyd o ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad cyfunol ein staff a rhanddeiliaid allweddol i lywio'r camau nesaf.




**Diogelu**
Parhau i weithio gyda sectorau preifat, gwirfoddol ac annibynnol i sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn fusnes i bawb.

**Comisiynu'r Trydydd Sector**
Datblygu cyllidebau cyfun a threfniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer darpariaeth y trydydd sector i gefnogi mwy o bwyslais ar les, cymorth cynnar a chefnogaeth.

**Comisiynu Cartrefi Gofal**
Datblygu cyllidebau cyfun a threfniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer comisiynu cartrefi gofal er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen gofal preswyl a nyrsio yn cael gwasanaeth di-dor.

**Mynediad a Thrafnidiaeth:**
Adolygu cynlluniau trafnidiaeth cleifion nad ydynt yn rhai brys a chludiant gwirfoddol i sicrhau bod trafnidiaeth gymunedol yn cael ei darparu yn y dyfodol.

**Y Gymraeg**
Gwella'r arlwy Gymraeg ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wella tegwch.




**Canolfan Ranbarthol Wledig yn y Drenewydd**
Mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â'r ystâd sy'n heneiddio, cefnogi anghenion poblogaeth y dyfodol a lliniaru yn erbyn y newid posibl mewn gwasanaethau i ffwrdd o ogledd Powys o dan y Rhaglen Ffit ar gyfer y Dyfodol.

**Datblygu Hybiau Cymunedol**
Adolygu asedau cymunedol yn ogystal â'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau yn erbyn poblogaeth y dyfodol er mwyn nodi meysydd posibl eraill ar gyfer datblygu canolfannau cymunedol.

**Tai â Chymorth**
Datblygu llety addas sy'n galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau sylfaenol, meithrin perthynas dda â chymdogion ac eraill, a chynnal eu hannibyniaeth.

**Arloesi, Gwella, Ymchwil a Datblygu**
Datblygu'r sylfaen dystiolaeth, gwella sut mae effaith yn cael ei mesur, a cheisio nodi, rhannu ac ymgorffori arfer da.




**Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**
Parhau i ddatblygu gwybodaeth, cyngor a chymorth gan gynnwys y Cysylltwyr Cymunedol i alluogi mynediad cyflym i gymorth cymunedol lleol.

**Gweithredu System Gwybodaeth Gymunedol Cymru**
Parhau i weithredu system WCCIS ledled Powys i gefnogi cydlynu gofal.

**Teleofal a Theleiechyd**
Byddwn yn hyrwyddo ac yn cyflwyno teleofal a theleiechyd i alluogi pobl i hunanofal ac aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.


# AELODAETH Y BWRDD

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer iechyd a gofal ym Mhowys ac yn gwneud y penderfyniadau mawr ynghylch ble y dylai adnoddau fynd, ond yn allweddol i sbarduno gwaith yn ei flaen mae ei bedair is-bartneriaeth: Dechrau'n Dda, Byw'n Dda (Anabledd), Byw'n Dda (Iechyd Meddwl) a Heneiddio'n Dda. Mae pob un ohonynt yn cynnwys grŵp llawer ehangach o bobl ac mae iddynt hefyd is-grwpiau sy'n gwneud gwaith manylach.

Mae rhai themâu sy'n torri ar draws pob maes e.e. anghenion gofalwyr di-dâl. Mae gan y rhain hefyd grwpiau partneriaeth penodol i fwrw ymlaen â gwaith. Mae Grŵp Trosolwg Trawsbynciol ac Adnoddau (CCROG) yn bodoli i oruchwylio'r meysydd hyn.

Cefnogir y Bwrdd gan dîm bach sy'n darparu cymorth a chydlynu lefel uchel.

Mae gan y BPRh is-bartneriaethau sy'n canolbwyntio ar sut y gall pobl Powys Ddechrau, Byw a Heneiddio'n Dda. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau trawsbynciol y BPRh. Mae fforymau ymgysylltu yn cyfrannu at waith yr is-grwpiau, sydd yn eu tro yn cysylltu â'r BPRh ac yna'r Cyd-fwrdd Partneriaeth a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.



# AELODAETH Y BWRDD 2021/22

**Alice Smith**
Rheolwr Cymdogaeth Ardal, Grŵp Pobl

**Ali Bulman**
Cyfarwyddwr Corfforaethol Plant ac Oedolion, Powys

**Carl Cooper**
Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

**Carl Strack**
Cynrychiolydd Dinasyddion

**Carol Shillabeer**
Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (Cadeirydd)

**Y Cynghorydd Rachel Powell**
Aelod Cabinet Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys

**Y Cynghorydd Rosemarie Harris**
Arweinydd Cyngor Sir Powys

**Y Cynghorydd Myfanwy Alexander**
Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Powys

**Dylan Owen**
Pennaeth Comisiynu, Cyngor Sir Powys

**Estelle Hitchon**
Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys)

**Jamie Marchant**
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddyliol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Julie Gillbanks**
Cynrychiolydd Gweithredu dros Blant

**Kim Spielman**
Cynrychiolydd Dinasyddion

**Lynette Lovell**
Prif Swyddog Addysg Dros Dro, Cyngor Sir Powys

**Melanie Davies**
Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Merionia Davies**
Cynrychiolydd Gofalwyr

**Melanie Minty**
Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol, Cyngor Sir Powys

**Nina Davies**
Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol, Cyngor Sir Powys

**Sian Dorward**
Cynrychiolydd Dinasyddion


**Steve Jones**
Rheolwr Gwasanaeth, Barcud


**Stuart Bourne**
Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Cymru

# CYNNYDD A CHYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

## Asesiad Anghenion y Boblogaeth

Cyhoeddwyd yr ail Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Powys ym mis Mawrth 2022. Mae'r Asesiad yn rhoi golwg fanwl ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol presennol ac yn y dyfodol ar draws y sir. Cynhaliwyd yr asesiad fel ymarfer helaeth ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Powys ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'r sector annibynnol.




Mae'r Asesiad hwn yn canolbwyntio ar wyth thema graidd:

1. **Plant a phobl ifanc**
2. **Pobl hŷn**
3. **Iechyd**
4. **Anableddau corfforol a Nam ar y Synhwyrau**
5. **Anabledd dysgu ac awtistiaeth**
6. **Iechyd meddwl**
7. **Gofalwyr sydd angen cymorth**
8. **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol**

Bydd yr Asesiad yn galluogi BPRh Powys i ddeall pa feysydd i ganolbwyntio arnynt yn y tymor byr i ganolig gan ategu’r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein Hasesiad cyntaf. Bellach, bydd y manylion yn yr Asesiad yn cael eu defnyddio i gynhyrchu cynllun ardal sy'n amlinellu ein blaenoriaethau integredig ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y cynllun ardal yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

Mae'r Asesiad diweddaraf wedi parhau i adeiladu ar ein dealltwriaeth o angen trwy ddefnyddio gwybodaeth ymgysylltu, yn ogystal ag ymchwil cenedlaethol, adroddiadau, a thystiolaeth, i helpu i ddeall sefyllfa a phrofiad trigolion a'r rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau.

Roedd y Sector Gwerth Cymdeithasol yn cymryd rhan yn y broses gydweithredol a weithredodd yr Asesiad. Roedd cyfraniad pwysig ac arwyddocaol gan asiantaethau allweddol y trydydd sector, gan gynnwys:

- **Credu (gofalwyr)**
- **Cyngor ar Bopeth (cymorth ariannol)**
- **Cysylltwyr Cymunedol (anghenion a phrofiadau unigolion)**
- **Gwasanaeth Cyfeillio Powys (unigrwydd ac unigedd cymdeithasol)**
- **Hygyrchedd Powys (anableddau)**
- **Canolfan Gwirfoddoli Powys (gwirfoddoli)**
- **Mudiadau plant a phobl ifanc y trydydd sector**
- **Asiantaethau cymorth dementia yn y trydydd sector**

Ymatebodd fforymau a oedd yn cynnwys darparwyr Iechyd Meddwl a rhwydweithiau Eiriolaeth i'r Asesiad drafft i sicrhau bod ei gynnwys yn cael ei lunio gan brofiad bywyd pobl a darparwyr, ac nid yn unig gan ddata'r boblogaeth.

## I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho Asesiad Anghenion y Boblogaeth ewch i Asesiad Anghenion y Boblogaeth (powysrpb.org)

Mae Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad RPB Powys yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd yr adroddiad yn ceisio cynnig trosolwg o sefydlogrwydd y farchnad a chynaliadwyedd gyda'r bwriad o helpu Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol o fewn Powys yn well, yn enwedig o ran gwasanaethau a reoleiddir. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried ar y cyd ag Asesiad cyfredol o Anghenion Poblogaeth Powys. Gyda'i gilydd, bwriad yr astudiaethau hyn yw darparu gwasanaethau i staff sy'n comisiynu gofal a chymorth ym Mhowys gyda darlun cynhwysfawr o'r galw a'r cyflenwad a ragwelir o'r presennol.






## Model Integredig o Ofal a Llesiant

Mae'r weledigaeth strategol ar gyfer Model Integredig o Ofal a Lles ym Mhowys yn rhan annatod o weledigaeth mwy hirdymor Strategaeth Iechyd a Gofal Powys.

Mae'n ceisio nodi cyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal, yn rhannol drwy ganolbwyntio ar ddarparu mwy o wasanaethau yn y sir a dod â gofal yn nes at adref. Mae'r model integredig newydd hwn o ofal a lles yn gyfle unwaith mewn oes i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal i'r boblogaeth yng nghanol gwledig Cymru, yn ogystal â harneisio a chyflymu'r cyfleoedd am ddatblygiadau digidol y mae Covid-19 wedi'u cyflwyno.

Er mwyn galluogi preswylwyr ym Mhowys i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach, mae angen symud pwyslais y model o iechyd a gofal o ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau acíwt ac arbenigol mewn ysbytai a chynnig model mwy cyfannol ac integredig gyda mwy o wasanaethau llesiant, atal a chymorth cynnar a ddarperir yn nes at gartrefi a chymunedau pobl.




Mae modd gweld ffeithlun sy'n amlinellu y Model Integredig Gofal a Lles ym Mhowys yma. Mae'r ddelwedd yn dangos cydrannau allweddol model integredig o iechyd a lles i ddarparu cynnig iechyd a gofal gwell i bobl o fewn eu cartref; eu cymunedau; eu hardal neu ranbarth; neu allan o'r sir.

Bydd cynnal y gyd-ddibyniaeth rhwng yr holl bartneriaethau a rhaglenni allweddol o dan BPRh Powys yn hanfodol, fel y bydd sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu'n cael ei rannu ar draws y bartneriaeth, i sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosib i gyflawni'r model integredig o ofal boed ar sail Powys gyfan neu o fewn rhanbarth penodol

**Mae rhagor o wybodaeth am y Model Integredig o Ofal a Llesiant ym Mhowys ar gael yma**

# Dyfodol y gweithlu

Y gweithlu yw'r ffactor unigol pwysicaf o ran ansawdd y gofal yr ydym yn ei ddarparu ac felly mae'n rhan annatod o gyflawni'r hyn a nodir yn Strategaeth Iechyd a Gofal Powys.

Mae rhaglen Dyfodol y Gweithlu y bartneriaeth yn canolbwyntio ar ofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a mwy o weithio mewn partneriaeth. Mae wedi gwneud cynnydd da eleni, gan weithio tuag at gyflawni o gymharu â’r canlyniadau a nodwyd yn Fframwaith Strategol Dyfodol y Gweithlu gan gynnwys gosod sylfeini Academi Iechyd a Gofal Powys.

Bydd yr Academi yn gwella mynediad lleol i addysg, hyfforddiant a datblygiad ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y sir. Yr uchelgais yw cefnogi'r sector i fod ymhlith y dewisiadau pennaf i'r rhai sy'n ymuno neu’n dychwelyd i'r farchnad swyddi, ac iddo ddod yn ddarparwr enghreifftiol o addysg broffesiynol a chlinigol wledig drwy ei ofodau ffisegol a rhithwir.

Y cyntaf o'i fath yng Nghymru, mae'r Academi Iechyd a Gofal yn cynnig cyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb a digidol drwy'r pedair ysgol yma:

### •Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

### •Arweinyddiaeth

### •Gwirfoddolwyr a Gofalwyr

### •Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol a Chlinigol

Academi Iechyd a Gofal Powys

Powys Health and Care Academy

## Mae'r llwyddiannau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

» Agor y ganolfan ffisegol, o'r radd flaenaf, ar gampws Bronllys er mwyn galluogi dysgwyr i ddysgu mewn ffordd ddeinamig. Mae'r cyfleuster hwn yn cynnal 'Gofod Byw Efelychol Addasol' sy'n cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau mewn amgylchedd cartref. Bydd hefyd yn galluogi treialu'r dechnoleg ddiweddaraf sy'n cefnogi pobl i fyw yn annibynnol.

» Datblygu llwybrau gyrfa sy'n cefnogi unigolion sydd ag uchelgais i weithio yn y sector iechyd a gofal i ennill profiad a sgiliau. Mae'r grŵp cyntaf o ddysgwyr wedi cael cynnig lleoliadau gwaith gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys drwy gynllun Kickstart, a ariennir gan Lywodraeth y DU.

» Sefydlu ysgol gwirfoddolwyr a gofalwyr er mwyn cydnabod rôl gwirfoddolwyr a gofalwyr wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal ledled Powys. Cynigir cymorth llesiant i wirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl ym Mhowys. Ar ddechrau'r flwyddyn dysgodd 31 o bobl dechnegau i 'gydbwyso' eu hanghenion gofal eu hunain, gydag anghenion y bobl hynny y maent yn gofalu amdanynt, fel rhan o gynllun treialu llwyddiannus. Mae'r rhaglen Cydbwysedd wyth wythnos bellach ar agor i staff iechyd a gofal cymdeithasol cyflogedig y sir hefyd.

» Datblygu'r maes llafur Iechyd a Gofal Cymdeithasol arloesol i fyfyrwyr blwyddyn 11 a 12, i'w dreialu drwy Grucywel, Aberhonddu a Gwernyfed fel rhan o'r cwricwlwm o fis Medi 2022. Cyfuniad o ddysgu damcaniaethol, efelychol ac ar leoliad.

» Cynnal ar ran Cymru y rhaglen 'Arweinyddiaeth Drawsnewidiol Ddigidol', lle mae arweinwyr o bob cwr o Gymru yn datblygu eu sgiliau ar draws ystod o gymwysterau datblygiad proffesiynol parhaus ac yn dysgu i feddwl yn wahanol am y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau.

Dechreuodd Rhys Warburton, 21 oed, leoliad gwaith Cynorthwy-ydd Gweinyddu yng Nghanolfan Adnoddau Bryntirion yn Y Trallwng fel rhan o'r rhaglen Kickstarter. Meddai Rhys:



**"Gwych o ran profiad o weithio. Roedd fy lleoliad yn caniatáu imi weld sut beth oedd swydd go iawn. Mae wedi gwella fy hyder a fy ngwthio i wella sgiliau amrywiol ac i weithio y tu allan i fy mharth cysur. Dysgais lawer am sut brofiad oedd gweithio yn y GIG"**

Dilynodd Kimberly Owen, sy'n 20 oed, leoliad deuol yn cefnogi'r timau domestig a'r porthorion yn Ysbyty Ystradgynlais .



**"Y rheswm pam y dewisais i'r lleoliad gwaith yma yw oherwydd roeddwn i'n meddwl ei fod yn ffordd wych o gynnig cyfleoedd newydd i oedolion ifanc. Mae ychydig yn wahanol i fy swyddi blaenorol ond fe ddaliodd fy llygad gan eu bod yn chwilio'n benodol am bobl ifanc oedd wrthi'n chwilio am waith."**

Mae'r rhaglen waith wedi ei chyd-greu gyda'r gweithlu o bob agwedd ar y sector. Roedd dros 300 o randdeiliaid o bob rhan o Bowys yn cefnogi datblygiad y rhaglen waith. Dywedodd un o'n rhanddeiliaid:

**"Rydw i eisiau gallu cael hyfforddiant, addysg a sgiliau yn y sir i fy helpu i ddatblygu a chael cyfleoedd." "Rwyf am i'r rhai sy'n gofalu amdanaf allu gwneud penderfyniadau ac ymateb yn briodol oherwydd eu bod ganddynt wybodaeth a chymwysterau da."**

**I ddarganfod mwy ewch i https://www.powysrpb.org/powyshealthandcareacademy**

## Rhaglen Llesiant Gogledd Powys

Mae Rhaglen Llesiant Gogledd Powys yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid a gwella'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd, gofal a llesiant yn cael eu darparu i bobl o bob oedran. Mae'n symud y pwyslais i atal a llesiant, gan gynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol i wella mynediad, a goresgyn heriau'r gweithlu drwy gydweithio mewn partneriaeth.

Mae'r rhaglen waith yn cynnwys datblygu campws llesiant aml-asiantaeth yng nghanol y Drenewydd, gan ddod â darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol y dref at ei gilydd ochr yn ochr â darpariaeth o'r sector gwirfoddol. Bydd y campws hefyd yn cynnwys adeilad newydd ar gyfer Ysgol Calon y Dderwen, academi iechyd a gofal, llyfrgell a gwasanaethau gwybodaeth yn ogystal ag ychydig o lety ar gyfer byw â chymorth, myfyrwyr yr academi ac arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymweld.

Cyflwynwyd Achos Busnes y Rhaglen (y cyntaf o bedwar achos busnes) ar gyfer campws Y Drenewydd ym mis Tachwedd 2019 a chafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r tîm wedi datblygu cam nesaf y broses o gynllunio achosion busnes, yr Achos Amlinellol Strategol.

Mae'r rhaglen wedi ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt o ran y campws ac wedi cysylltu â chlinigwyr a gweithwyr proffesiynol i drafod modelau gofal amgen i lywio'r gwaith o fodelu galw a chapasiti.

Mae'r gwaith hwn wedi rhoi rhagor o eglurder ynghylch cwmpas posibl y cynllun a'r uchelgais ynghylch y modelau gwasanaeth posibl.  Ar lefel uchel iawn mae hefyd yn ystyried y gwahanol opsiynau sy'n cael eu hystyried, y manteision arfaethedig ac agweddau ariannol a masnachol y cynllun. Cafodd yr achos busnes hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys ym mis Mawrth 2022.

Mae llawer o bartneriaid yn y trydydd sector wedi mynegi diddordeb i fod yn rhan o'r rhaglen i wella canlyniadau i'r boblogaeth. Defnyddir dull partneriaeth i gysylltu partneriaid yn ffurfiol â gwasanaethau llesiant ac ataliol.






Mae'r cynigion ar gyfer campws y Drenewydd yn unol â'r 'Model Integredig o Ofal a Lles ym Mhowys' a lansiwyd yn 2021 ac a ddatblygwyd yn dilyn rhaglen o ymgysylltu dwys cyn y pandemig.








Yn ystod y flwyddyn, ariannwyd nifer o brosiectau 'Cyflymu Newid' gan y rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. **Gwasanaeth diagnostig cwsg newydd ym Mhowys. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau offer i brofi pobl ac mae bellach yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn i unrhyw un o drigolion Powys o bell, fel nad oes rhaid iddyn nhw deithio i ysbyty penodol.**

2. **Ymunodd Tîm Trawsnewid Digidol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) a Rhaglen Llesiant Gogledd Powys i gynnig cefnogaeth i drigolion lleol i fynd ar-lein mewn prosiect treialu. Bellach, gall trigolion ddefnyddio lleoliad cyfrinachol, diogel ym Mhlas Dolerw ar Ffordd Milford, Y Drenewydd i fynychu eu apwyntiad yn 'rhithiol'. Mae staff cymorth ar gael i ddarparu cymorth technegol a allai fod ei angen yn ystod eu hapwyntiad.**

3. **Dychwelyd Plant sy'n Derbyn Gofal i'r Sir – mae'r prosiect yn cynnal gostyngiad yn nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal bob chwarter ac mae'n dangos elw ar fuddsoddiad.**

4. **Bach A Iach - hyfforddiant a sesiynau cefnogi amrywiol yn cynnwys 'coginio gyda'n gilydd', 'cerddoriaeth a symud' a 'hyfforddiant sgiliau syrcas' i ysgolion a lleoliadau cyn-oed ysgol ym Mhowys. Mae adborth gan staff a phenaethiaid ysgolion yn gadarnhaol iawn. Yn ystod yr haf, cynhaliodd y tîm gyflwyniad, ar y cyd â Datblygiad Chwaraeon Powys, mewn cynhadledd Cymru gyfan yn arddangos eu dull cydweithredol.**

5. **Prosiect Spirometreg Gyrru Heibio. Mae'r cynllun treialu wedi bod o gymorth mawr wrth ffurfio cynlluniau spirometreg tymor hwy gyda'r bwriad o archwilio ffyrdd o'i weithredu'n genedlaethol.**

6. **Mae Cydlynwyr Cymunedol Powys wedi gweithio gyda dros 879 o blant a phobl ifanc a mwy na 350 o deuluoedd. Trefnwyd amrywiaeth o gyfleoedd a digwyddiadau fel rhan o'r 'Haf o Hwyl' gan roi profiadau cadarnhaol i deuluoedd dros fisoedd yr haf.**

7. **Mae gwasanaethau gofal llygaid yn cael buddsoddiad lleol ac mae rhai cleifion bellach yn cael eu gweld yn lleol, gan atal pobl rhag teithio allan o'r sir.**

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r prosiectau hyn a'r rhaglen ehangach ewch i

**http://www.powyswellbeing.wales/?lang=cy**



- Adeiladu Cymunedau Cadarn a Mynediad Integredig at wasanaethau
- Cadw Plant ym Mhowys
- Llais y Plentyn
- Iechyd a Lles Emosiynol







# DECHRAU'N DDA

Mae'r Bartneriaeth Dechrau’n Dda yn parhau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol ar draws y sbectrwm o angen ar gyfer plant a phobl ifanc, wrth helpu i sicrhau bod teuluoedd yn parhau i gael eu cefnogi ag effaith y pandemig.

**Mae'r dystiolaeth o effeithiau'r pandemig ar blant a phobl ifanc yn sail i bwyslais y bartneriaeth, agweddau sydd fwyaf pwysig i les poblogaeth Powys, ac ymyriadau a fydd yn gweithio orau i fynd i'r afael â rhai o'r anghenion mwyaf cymhleth a nodwyd.**

Bydd Aelodau Partneriaeth Dechrau'n Dda yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu model NEST / NYTH. Mae Fframwaith NEST/NYTH yn offeryn cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n ceisio sicrhau dull 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru. Cafodd ei chyd-gynhyrchu'n genedlaethol gan y rhwydwaith Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP2) ac ystod eang o randdeiliaid.

Bydd model Powys yn gweithio ar draws y pum ffrwd waith sy'n rhan o Dechrau’n Dda a bydd yn sail i'r gwaith o ddatblygu blaenoriaethau allweddol sy'n cael eu cyflawni o dan Dechrau'n Dda (gweler y diagram isod).



# Adeiladu cymunedau cadarn a mynediad integredig at wasanaethau

Mae'r gwaith Mynediad Integredig at Wasanaethau yn cyfochri gwaith y Bartneriaeth Dechrau'n Dda â'r adroddiad cenedlaethol 'Dim Drws Anghywir' sy'n cael ei arwain gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r blaenoriaethau integreiddio a chydweithio yn y Strategaeth Iechyd a Gofal.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith wedi symud ymlaen i adeiladu canolfannau cymorth cynnar yn Aberhonddu a'r Trallwng. Cafodd y rhain eu hariannu drwy grantiau cyfalaf Dechrau'n Deg. Bydd pob canolfan yn gartref i swyddfa aml-asiantaeth, ystafelloedd cyswllt, a gofal plant i blant 2, 3 a 4 oed.

Bydd y ganolfan gymorth gynnar yn Y Trallwng wedi'i lleoli yn Ysgol Oldford ac mae disgwyl iddi agor i deuluoedd yn ystod tymor yr hydref 2022.

Bydd y ganolfan cymorth cynnar yn Aberhonddu wedi ei lleoli mewn adeilad newydd ar faes Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy. Cwblhawyd cam un y prosiect ym mis Mawrth 2022, ac agorwyd maes chwarae newydd ar gyfer plant 0-4 oed ar dir a oedd yn ffinio â'r ysgol. Mae offer chwarae cynhwysol newydd yn galluogi plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol a'u creadigrwydd. Bydd yr ardal hon yn gweithredu fel man awyr agored estynedig ar gyfer lleoliad Dechrau'n Deg newydd sydd i fod i agor yn ystod hydref2022.





Mae sesiynau cymorth rhianta cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn parhau i gael eu darparu ar-lein ledled y sir. Caiff y rhain eu darparu mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys grwpiau rhianta a chefnogaeth 1:1.

Mae'r hyblygrwydd cynyddol y mae darparu ar-lein yn ei ganiatáu wedi cael ei amlygu'n rheolaidd, ac mewn sir wledig fawr fel Powys, mae grwpiau rhianta ar-lein wedi arwain at amseroedd aros byrrach i bobl gael mynediad i'r grwpiau hyn.

Datblygwyd y 'Tîm o amgylch y clwstwr' ar ddechrau Pandemig Covid-19 gyda'r nod o gefnogi'r canolfannau gofal plant ar gyfer gweithwyr brys ar draws yr 13 ardal glwstwr ranbarthol ym Mhowys. Nodwyd bod y cymorth cofleidiol aml-asiantaeth hwn yn gadarnhaol iawn ac yn cael ei werthfawrogi gan yr ysgolion.

O ganlyniad, gwnaed gwaith i gryfhau a datblygu'r dull hwn ymhellach. Mae manteision grŵp aml-asiantaeth dynodedig ar gyfer pob clwstwr yn cynnwys y cyfle i ysgolion feithrin perthynas â grŵp amrywiol o weithwyr gofal plant proffesiynol a chael cyngor a gwybodaeth yn anffurfiol, gan ddefnyddio ystod eang o arbenigedd, gwybodaeth a chefnogaeth. Gellir nodi gwybodaeth am anghenion lleol a'u paru â gwasanaethau lleol a gall y grŵp aml-asiantaeth ymateb yn hyblyg, gan nodi bylchau mewn gwasanaethau i liniaru risgiau a diwallu'r angen.

## Cadw plant ym Mhowys



Mae'r bartneriaeth yn parhau i ddarparu cymorth dwys i wella'r trefniadau byw presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu aros yn byw gyda'u teuluoedd yn hytrach na mynd i ofal, pan fo hynny'n ddiogel. Eleni bu modd i'r Tîm Ymyl Gofal aduno 15 o blant gyda'u teuluoedd. Roedd tua 86% o'r holl deuluoedd a atgyfeiriwyd yn dangos cynnydd cadarnhaol ar ddiwedd yr ymyriad, a helpodd i gadw cyfraddau ail-atgyfeirio yn isel drwy'r flwyddyn.

**Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda theuluoedd am gyfnodau hirach i sicrhau bod teuluoedd yn parhau i fod â chymhelliant i gyrraedd eu nodau. Gyda chyflawniad o 99% o ran cadw plant gartref gyda'u teuluoedd, mae'r gwasanaeth wedi dangos sut maen nhw'n creu ymyriadau effeithiol sy'n cynorthwyo teuluoedd i wneud newidiadau perthnasol.**

Mae Llety Diogel i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth ym Mhowys yn gweithio i sicrhau bod llety diogel yn cael ei ddarparu yn y sir i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol difrifol er mwyn lleihau'r angen am lety diogel. Datblygwyd model a chynllun hyfforddi aml-asiantaeth therapiwtig ac mae eiddo wedi'i brynu yng ngogledd Powys ac mae'n cael ei adnewyddu wrth baratoi i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Llais y plentyn

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd lleisiau pobl ifanc sy'n byw yng nghefn gwlad Powys. Mae'r Bwrdd Dechrau'n Dda Iau (JSWB) a sefydlwyd ym mis Mawrth 2021 wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae bwrdd pobl ifanc ar gyfer pobl 11 - 17 oed sy'n byw ym Mhowys sydd eisiau dweud eu dweud a gwneud gwahaniaeth. Mae'r bwrdd iau yn cwrdd ag arweinwyr iechyd a gofal bob deufis i drafod meysydd gwaith, cynnig eu safbwyntiau, a chodi'r materion sydd bwysicaf iddynt.




Bu Aelodau JSWB yn helpu i greu arolwg i gasglu barn pobl ifanc ar wasanaethau ac iechyd emosiynol ym Mhowys. Cafodd yr arolwg ar-lein a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 gyfanswm o 233 o ymatebion. Roedd bron hanner yr ymatebwyr wedi derbyn gwasanaethau ym Mhowys yn flaenorol (e.e. CAMHS, YIS, Credu, Kooth). I'r rhai oedd wedi defnyddio gwasanaethau, roedd 40% wedi defnyddio Nyrs yr Ysgol, ac yna Kooth ar-lein (18%) a CAMHS (16%).

Mewn ymateb i'r arolwg fe wnaeth tîm Dechrau'n Dda gynhyrchu dogfen **Dywedoch chi, Gwnaethom ni** sy'n cael ei diweddaru yng nghyfarfodydd Dechrau'n Dda a'i rannu gyda'r llif gwaith partneriaeth. Yna rhoddir adborth yn ôl i'r JSWB. Mae'r JSWB yn cefnogi'r Bartneriaeth yn eu gwaith i fynd i'r afael â'r themâu a oedd yn deillio o'r arolwg, megis mynediad at wybodaeth, prosiect gofodau mwy diogel, ac iechyd emosiynol mewn ysgolion.

Mae'r camau hyn hefyd yn ymateb i'r agenda Dim Drws Anghywir a grybwyllwyd yn flaenorol sy'n ceisio gwella mynediad at wasanaethau i bobl ifanc a theuluoedd a darparu gwybodaeth glir am wasanaethau sydd ar gael. Mae'r JSWB wedi derbyn hyfforddiant ar Dim Drws Anghywir a model NYTH NEST ac wedi mynychu'r cyfarfod BPRh Cenedlaethol a drefnwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru.

## Iechyd a llesiant emosiynol

Mae gwasanaeth iechyd a llesiant emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn bodloni meini prawf ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi parhau i gael ei ddarparu fel rhan o'r prosiect Canol Coll.

**Fe wnaeth CAMHS asesu 545 o bobl ifanc yn ystod 2021/22 ac mae'n parhau i gefnogi gweithwyr proffesiynol ac ysgolion ac yn cyfeirio pobl ifanc i'r gwasanaethau mwyaf priodol.**


Mae gwasanaeth CAMHS wedi gweld gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a chynnydd mewn asesiadau sy'n cael eu cynnal a chyfradd o 69% ar gyfer atgyfeiriadau priodol. Mae'r prosiect Canol Coll wedi gwella'r capasiti presennol fel y gall pobl ifanc gael mynediad at gymorth 1:1, yn ogystal â gwaith grŵp ym mhob ysgol uwchradd sy'n darparu cefnogaeth emosiynol ynghylch straen arholiadau a datblygu cadernid. Eleni dangosodd 89% o bobl ifanc welliant ar SDQ o ran straen cyffredinol.

**Eleni mae 4,220 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd gan swyddog datblygu iechyd a llesiant newydd, a ariannwyd ar y cyd drwy'r prosiect hwn.**

Mae Powys wedi datblygu Model Iechyd a Llesiant Emosiynol sy'n cyfuno pob elfen o iechyd a llesiant emosiynol plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r model yn ffordd integredig i wasanaethau, deddfwriaeth genedlaethol a chanllawiau weithio gyda'i gilydd i gefnogi llesiant.

Mae Powys wedi gweld cynnydd mewn anghenion iechyd meddwl plant dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i effaith y pandemig barhau. Mae'r sir wedi llwyddo i gynnal gwasanaeth drwyddi draw, sy'n bennaf oll yn sgil gwaith partneriaeth aml-asiantaeth cryf. Mae datblygiad y Canolfannau Cymorth Cynnar wedi parhau, yn ogystal â datblygu 'un pwynt mynediad' ar gyfer pob atgyfeiriad.

Mae cynllun treialu mewngymorth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn ysgolion wedi bod yn hynod lwyddiannus ac o ganlyniad mae Powys wedi derbyn arian i ddatblygu ei wasanaeth ei hun a fydd yn gweld ysgolion yn elwa o gefnogaeth iechyd meddwl arbenigol. Pwyslais ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd gweithredu 'dull ysgol gyfan' i fynd i'r afael ag iechyd meddwl, gan ddefnyddio addysg fel porth.



Mae'r Bwrdd Dechrau'n Dda yn cydnabod y galw ac effaith gadarnhaol y prosiect Canol Coll sy'n ceisio cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol. Gan adeiladu ar y Model Iechyd a Llesiant Emosiynol mae'r bartneriaeth wedi sicrhau buddsoddiad trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Genedlaethol i ddatblygu tîm Ymlyniad Cadarnhaol Therapiwtig aml-asiantaeth a fydd yn cyd-fynd â'r project canol coll a gwasanaethau cymorth iechyd emosiynol i ffurfio ymateb integredig Iechyd a Llesiant Emosiynol Powys.

DECHRAU DA



- Nes at Adref
- Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Atal Gartref
- Cysylltwyr Cymunedol
- Iechyd Meddwl
- Dementia







# BYW'N DDA

Pwrpas craidd y Bartneriaeth Byw'n Dda yw cael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag byw bywyd da. Mae hyn wedi'i lywio ar sail cyd-gynhyrchu gan ddinasyddion a symud i ffwrdd o ddull diffyg lle mae 'problemau' yn gysylltiedig â'r person sy'n profi anabledd i fodel cymdeithasol sy'n cydnabod amodau'r system y mae angen iddi fod ar waith i alluogi cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r newid mewn pwyslais wedi galluogi dealltwriaeth well o gyfrifoldebau'r bartneriaeth i gyflawni blaenoriaethau'r rhaglen a amlinellwyd ar gyfer 2022 a thu hwnt.

Mae'r Bartneriaeth Iechyd Meddwl Byw'n Dda yn parhau i flaenoriaethu cyfleoedd i ymgorffori cydrannau allweddol o'r model yn benodol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl ledled Powys. Nod Gwasanaethau Asesu Cof y Bartneriaeth yw datblygu model mwy effeithlon o weithio sy'n gwella gofal cleifion ac yn mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaeth er mwyn cyd-fynd â'r safonau gofal dementia. Mae Tîm Trin Dementia yn y Cartref y Bartneriaeth yn darparu gwasanaeth dementia cymunedol arbenigol wedi'i dargedu sy'n cefnogi cleifion yn ystod cyfnodau o argyfwng i barhau i fyw'n llwyddiannus, yn ddiogel ac yn annibynnol gartref neu yn eu hamgylchedd gofal presennol.



## Yn nes at adref



Mae'r bartneriaeth yn parhau i helpu pobl sy'n byw y tu allan i'r sir oherwydd eu hanghenion cymorth penodol, i fyw yn nes at adref.

Yn ystod y flwyddyn, agorwyd llety newydd i 10 o bobl, gan alluogi iddynt fyw'n annibynnol, yn nes at eu cymunedau cartref. Mae'r datblygiad yn cynnig llety i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn byw yn annibynnol a gydag urddas. Mae'r tenantiaid yn cael mynediad at rywfaint o'r dechnoleg ddiweddaraf ynghyd â chymorth ar y safle i'w helpu i fod yn annibynnol yn eu cartref eu hunain.

Eleni mae datblygiad 14 gwely yn Y Drenewydd wedi cael ei gynllunio ar y cyd â Chymdeithas Tai Wales and West. Mae manyleb adeiladu wedi'i chyd-gynhyrchu wedi'i chwblhau i sicrhau llety sy'n addas ar gyfer y dyfodol sy'n gallu diwallu'r anghenion a nodwyd.

BYW'N DDA

## Ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol gartref

Gall darparu cefnogaeth a chymorth ymarferol i'r rhai hynny y mae angen ychydig o gymorth ychwanegol arnynt yn eu bywydau o ddydd i ddydd gadw pobl yn byw gartref - yn ddiogel ac yn annibynnol - am gyfnod hirach. Mae gwasanaeth Cymorth Cartref y bartneriaeth yn parhau i ddarparu cefnogaeth a chymorth cynnar ar ffurf ymweliadau llesiant, galwadau ffôn, siopa hanfodol, casglu presgripsiynau, cynorthwyo gofalwyr, cyfeirio at wasanaethau cymunedol, yn ogystal â rhywun yn gweithio 24/7 ar gyfer argyfyngau trwy ddefnyddio larymau cymunedol.

**Mae'r gweithredoedd bach ond pwysig hyn yn aml yn rhan fawr o gadw pobl yn ddiogel ac yn iach yn eu cartrefi.**

Mae'r gwasanaeth yn helpu i atal a/neu oedi'r angen am ofal a chefnogaeth ychwanegol ac yn lleihau teimladau o ynysigrwydd ac unigrwydd. Eleni cafodd 36,287 o ymyriadau cymorth cartref wedi'u trefnu eu cynnal ledled Powys, a oedd yn cynnwys cefnogi unigolion â dementia, yn ogystal â gofalwyr.  Datgelodd canlyniadau arolwg ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod 98 % ag ansawdd bywyd da a dywedodd 97% fod ganddynt brofiad da o ofal a'u bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae Cymorth Cartref yn parhau i leddfu'r pwysau ar weithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill.

> **"Rwyf wedi cael cefnogaeth ardderchog gan gymorth cartref dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac ni allwn fod wedi ymdopi hebddyn nhw. Maen nhw wedi trefnu eiriolaeth, fy mhecyn gofal, cael taliadau uniongyrchol i enwi ond ychydig o bethau."**
> Adborth gan breswylydd
>
> **"Mae eich gwasanaeth yn hynod o bwysig i'n defnyddwyr gwasanaeth. Fel nyrs cwympiadau rwy'n teimlo'n hapusach o wybod bod gan fy nghleientiaid chi i'w cynorthwyo. Alla i ddim mynegi digon pa mor bwysig yw hi i'r gwasanaeth yma barhau."** Adborth gan nyrs am Cymorth Cartref

## Cysylltwyr Cymunedol

Mae cyfraddau atgyfeirio at wasanaeth Cysylltwyr Cymunedol yn parhau i fod yn uwch nag yr oeddent cyn Covid-19, ond mae'r gwasanaeth bellach yn dychwelyd i waith achosion mwy cymhleth tymor hwy yn hytrach na'r cyngor a chyfeirio untro a oedd ar waith yn ystod anterth y pandemig.

Y prif faterion a ymddangosodd eleni oedd unigrwydd ac ynysigrwydd, cefnogaeth ymarferol gyda thasgau dyddiol a gwybodaeth am gefnogaeth yn y gymuned.

O blith y rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol eleni roedd 96% yn fodlon â'r gwasanaeth.

> **"Dydw i ddim yn gwybod sut y byddwn i wedi ymdopi â'r misoedd diwethaf heb y cysylltwyr cymunedol a phopeth maen nhw wedi helpu i'w ddarganfod, ei roi ar waith a fy nghynghori i."** Adborth gan breswylydd

## Astudiaeth achos

Roedd preswylydd sy'n byw mewn llety dros dro yn chwilio am gymorth i sicrhau llety parhaol a gwella eu hiechyd a'u lles.



### Beth oedd yn bwysig i'r unigolyn?

- **Sicrhau llety priodol**
- **Cael bwyd a newid dillad.**
- **Ymyrraeth feddygol oherwydd hunan-niweidio.**
- **Mynd i'r afael â phryderon am frechlyn Covid-19.**
- **Cyfleoedd gwirfoddoli i fagu hyder a chodi hwyliau isel.**

Gwrandawodd y Cysylltydd Cymunedol ar anghenion y preswylydd a'r hyn oedd yn fwyaf pwysig iddynt a'u cefnogi drwy gyfeirio yn briodol mewn sawl cam, er mwyn peidio â'u llethu â gormod o wybodaeth ar unwaith.

### Beth ddigwyddodd?

- **Sylw meddygol ar gyfer hunan-niweidio.**
- **Cael bwyd a newid dillad gan yr elusen Helping Our Homeless.**
- **Cwblhau cwrs 'Bywyd ACTif' i wella iechyd meddwl a lles cyffredinol.**
- **Cyfleoedd gwirfoddoli i alluogi rhyngweithio cymdeithasol a mwy o hyder yn yr awyr agored.**
- **Wedi sicrhau llety/tenantiaeth ei hun.**



Cyfaddefodd y preswylydd ei fod yn teimlo'n llawer gwell gan ddweud:

> **"Mae bywyd i weld fel petai yn gwella o'r diwedd. Mae’n rhyfeddol beth all diogelwch to uwch eich pen ei gynnig."**
>
> **"Rwy’n gwerthfawrogi’n fawr y gefnogaeth a'r wybodaeth a gefais gan y gwasanaeth Cysylltydd Cymunedol."**

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn lansio ein Cynllun Cyflawni Llety a Chymorth a hefyd yn datblygu model o waith, hamdden, ac opsiynau a chyfleoedd dysgu.

## Iechyd meddwl

Mae Partneriaeth Iechyd Meddwl Byw'n Iach yn parhau i flaenoriaethu cyfleoedd a nodir yn y Cynllun Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a blaenoriaethau allweddol lleol.

O ystyried yr heriau yn sgil Covid-19, bu'n rhaid i'r Bartneriaeth ymgymryd yn gyflym â ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau bod modd darparu cymorth iechyd meddwl. Yn fuan daeth platfformau rhithiol yn rhan annatod o gadw rhwydweithiau cymorth hanfodol yn fyw, ac mae nifer o rwydweithiau rhanbarthol wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol drwy gydol y pandemig.  Mae'r rhwydwaith partneriaeth wedi parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y BPRh sef:

- **Cymorth partneriaeth ar gyfer dull system gyfan sy'n cynnwys cysylltiadau gweithredol rhwng gwasanaethau, prosesau adrodd a llif gwaith partneriaid**
- **Datblygu Gwasanaeth Cymorth Profedigaeth Hunanladdiad Powys, yn gysylltiedig â Strategaeth Profedigaeth Powys a'r fframwaith cenedlaethol**
- **Canolbwyntio ar ymchwilio ac ymgysylltu mewn perthynas â Hunan-niweidio, casglu, dadansoddi a datblygu gwasanaethau cysylltiedig**
- **Dull system gyfan o ymdrin â gwasanaethau a hyfforddiant trawma**
- **Parhau i ddatblygu dull cyd-gynhyrchu o ddarparu gwasanaethau, cefnogi ymgysylltu â system gyfan gyda dinasyddion, gofalwyr a llais pobl ifanc.**
- **Archwilio modelau cymorth cymheiriaid newydd, gan gysylltu'r rhaglen â'r Academi Iechyd a Gofal, sy'n archwilio potensial ar gyfer rhoi prentisiaeth i bobl sydd â phrofiad bywyd o fod yn gyflogedig**
- **Parhau i ddatblygu Tîm Trin Dementia yn y Cartref y De (Gogledd) sy'n gysylltiedig â Chlinigau Asesu Cof**
- **Anghenion Iechyd Meddwl Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc**
- **Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar gydag Anhwylderau Bwyta**

Mae'r gwaith uchod i gyd ar wahanol gamau datblygiad. Bydd y Fforwm Hunanladdiad a Hunan-niweidio cyntaf erioed yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2022 a fydd yn helpu i ddod ag ymarferwyr a'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan farwolaeth drwy hunanladdiad ynghyd ar gyfer cynllunio mwy gwybodus.  Mae dull system gyfan wedi cael ei ystyried ym maes camddefnyddio sylweddau ac mae swyddi Diagnosis Deuol wedi'u hysbysebu i gefnogi'r unigolion hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.

Sefydlwyd grŵp Engage to Change i hybu cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau ym Mhowys. Mae'r bartneriaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth Therapi Ymddygiad Gwybyddol SilverCloud ar-lein, ac mae wedi dechrau defnyddio dull cyfunol o gefnogi pobl i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Mae CAMHS ac Iechyd Meddwl Sylfaenol wedi datblygu meini prawf newydd fel bod y trothwy yn cael ei ostwng i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen cymorth gan Iechyd Meddwl Sylfaenol.

Mae pwyslais gwell ar waith ymyrraeth gynnar er mwyn osgoi problemau neu salwch rhag bod yn gronig ac i osgoi cefnogaeth hirdymor. Mae gwaith pellach yn cael ei gynllunio gyda hyd yn oed mwy o gysylltedd rhwng partneriaethau amrywiol a gwahanol fecanweithiau adrodd.

## Dementia

Mae'r pandemig wedi amharu ar rai o'r canlyniadau ym Mhowys'

Er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig Covid-19, datblygodd y gwasanaethau systemau gweithio gwahanol i barhau i ddiwallu anghenion pobl sy'n byw gyda dementia ym Mhowys a chyflwyno ffyrdd rhithiol o weithio.

Darparodd partneriaid y trydydd sector gysylltiadau rhithiol â phobl a gwnaeth Dementia Matters a Cysylltwyr Cymunedol PAVO ym Mhowys gynnig cymorth ymarferol a dros y ffôn, a chafodd grwpiau rhithiol eu cynnal gan Dementia Matters ym Mhowys.

Gwnaeth y Tîm Trin Dementia yn y Cartref (DHTT) yng Ngogledd Powys barhau i ddarparu cymorth dros y ffôn, a chyswllt wyneb yn wyneb yn ôl y galw. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae 224 o atgyfeiriadau wedi eu derbyn, a dau berson angen eu derbyn i'r ysbyty.

Mae DHTT yn ne Powys wedi cefnogi 86 o bobl â dementia, a dim ond 5 o'r bobl hynny yr oedd angen iddynt fynd i ward Iechyd Meddwl. Mae'r tîm wedi cadw cyswllt wyneb yn wyneb â'n cleifion, gan ddarparu gofal o safon uchel.

Mae'r gefnogaeth a'r cyfeirio gan dimau DHTT ym Mhowys wedi golygu bod pobl wedi aros yn y lle y maent yn ei alw'n gartref cyhyd ag y gallant.

Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Mae ugain o safonau, sydd wedi eu datblygu drwy ddefnyddio fframwaith cyflawni Gwella Cymru, a oedd wedi ei gynllunio er mwyn cynorthwyo'r rhanbarthau i weithredu'r Safonau, trwy raglen ddwy flynedd. Mae pum ffrwd waith:

- **Ymgysylltu â'r Gymuned**
- **Asesiad Cof/Anableddau Dysgu/Nam Gwybyddol Ysgafn**
- **Cysylltydd Cymunedol**
- **Siarter Ysbyty Dementia-gyfeillgar**
- **Datblygu'r Gweithlu**
- **Mesur**

Llwyddodd BPRh Powys a BPRh Gogledd Cymru i gael "Cyllid Dementia Cenedlaethol" ar gyfer Rheolwr Prosiect Dementia, i hwyluso'r Safonau ym Mhowys a Gogledd Cymru.

Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd gweithdy gyda'r holl bartneriaid a oedd yn ymwneud â gofal dementia i lansio'r Safonau ym Mhowys. Yn dilyn y gweithdy, sefydlwyd pedwar grŵp gorchwyl a gorffen i ddechrau ar y gwaith o weithredu'r Safonau ym Mhowys. Mae'r grwpiau'n cwrdd bob dau fis ac mae cynlluniau gweithredu Safonau Dementia wedi'u datblygu i nodi a blaenoriaethu'r gwaith sydd ei angen yn ystod y flwyddyn baratoi. Ym mis Ebrill 2023 fydd y cam gweithredu.

## Y Gymraeg ac Ardaloedd Gwledig

Dau faes allweddol sy'n destun pryder i Ogledd Cymru a Phowys oedd y broblem o ddarparu gwasanaethau dementia yn Gymraeg a'r broblem o ddarparu gwasanaethau dementia mewn ardaloedd gwledig. Dechreuodd y Rheolwr Prosiect Dementia yn ei rôl ym mis Mehefin 2021 i gefnogi'r canlynol:


- **Mapio darpariaeth gwasanaethau dementia gan ystyried effaith, newidiadau, a cholled o ganlyniad i Covid-19 ac i ddeall yn benodol sut olwg sydd ar ddarpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg ac mewn ardaloedd gwledig.**

- **Ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n byw gyda dementia a'u hiaith gyntaf yw Cymraeg, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, eu gofalwyr a'u gweithwyr proffesiynol, er mwyn deall, beth sydd ei eisiau a'i angen.**

- **I adrodd ar y canfyddiadau i hysbysu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r sefyllfa bresennol, tynnu sylw at broblemau, a bylchau, a gwneud argymhellion ar gyfer darnau o waith blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r rhain wrth symud ymlaen.**

Amlinellir blaenoriaethau allweddol ar gyfer y gwaith Dementia ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf o dan y pedair thema a nodwyd yn yr adroddiad. Yn dilyn cymeradwyaeth gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Phowys, bydd cynllun cyflawni manwl ar gyfer 2022 - 2023 ar gyfer y ffrydiau gwaith hyn yn cael eu datblygu.





- **Gofal heb ei drefnu a Rhyddhau i Adfer yna Asesu**
- **Cefnogi Pobl Hŷn i Aros yn Annibynnol Gartref**
- **Llety ar gyfer Pobl Hŷn**






# HENEIDDIO'N DDA

Pwrpas craidd y Bartneriaeth Heneiddio'n Dda yw cefnogi pobl hŷn i fyw bywyd llwyddiannus ac annibynnol cyhyd â phosibl, gyda phwyslais ar wneud y mwyaf o’r cyfleoedd gyda Gofal wedi’i Alluogi gan Dechnoleg; lleihau ynysigrwydd ac unigrwydd; a sicrhau opsiynau llety priodol ar gyfer amrywiaeth o anghenion.

Pan na ellir diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion mewn lleoliad cymunedol neu yn y cartref, mae pwyslais y bartneriaeth ar gynyddu capasiti a galluoedd i sicrhau llif cleifion di-dor ar draws y system iechyd a gofal gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i ofalu yn nes at adref. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â materion ehangach hefyd, fel tlodi bwyd a digartrefedd, a gafodd ei nodi yn yr Asesiad diweddaraf o Anghenion y Boblogaeth.





## Gofal heb ei drefnu a rhyddhau i adfer yna asesu

Mae Canolfan Cydlynu Iechyd a Gofal Powys yn un pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch osgoi derbyniadau i ysbyty, sicrhau lles parhaus yn y gymuned a gwneud cysylltiadau cryf â chymorth y trydydd sector. Mae'r ganolfan yn cynnwys staff o iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n golygu bod gofal y claf yn gydgysylltiedig ac yn gydweithredol. Mae staff hefyd yn cyfathrebu gyda byrddau iechyd cyfagos yn ddyddiol er mwyn cydlynu llif cleifion i mewn, ac allan o ysbytai cymunedol Powys.

**Mae'r cyfathrebu clir rhwng cydweithwyr wedi helpu i leihau hyd arosiadau, oedi o ran gofal. Mae cleifion wedi gweld eu hanghenion yn cael eu diwallu'n brydlon.**

Os nodir llwybr i wely cam-i-lawr bydd y ganolfan yn gwirio capasiti, yn sicrhau bod atgyfeiriadau yn briodol, ac yn rheoli'r llif ar gyfer pob safle i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mor agos at adref â phosib. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar les cleifion drwy ganiatáu iddynt gael eu rhyddhau i'r lle y maent yn dymuno mynd iddo mor aml â phosibl, a gyda chymorth gofal sylfaenol, wardiau rhithwir, meddygon teulu a PAVO, mae hefyd yn sicrhau bod cymorth a chefnogaeth yn cael ei gynnig yn gynnar er mwyn osgoi cael eu derbyn i ysbyty.

Mae'r tîm yn parhau i asesu pecynnau gofal er mwyn sicrhau eu bod ar lefel briodol i'r unigolyn a'i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynyddu capasiti o fewn gofal cartref, gan gadw pobl gartref hefyd gyda'r cymorth a'r offer sydd eu hangen arnynt. Mae therapyddion galwedigaethol wedi bod yn hyfforddi gofalwyr cartref ar y defnydd o offer sy'n lleihau nifer y pecynnau gofal dau ofalwr a'r oriau o ofal sydd eu hangen. Mae hyd arosiadau mewn ysbytai yn aml yn cael ei leihau o ganlyniad i'r gwaith hwn, sy'n golygu bod canlyniadau da yn cael eu darparu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff sy'n gofalu amdanynt.

Trwy ddilyn dull 'beth sy'n bwysig' sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gwasanaethau, llwyddodd y bartneriaeth i leihau'r amser a gymerwyd i ddatrys problemau hirdymor ac yn sgil hynny, lleihau gofal dros dro mewn gwelyau dros gyfnod y gaeaf. Gyda monitro rheolaidd, cafodd cleifion ysbyty a gafodd eu rhyddhau i welyau gofal canolradd eu cefnogi i ddychwelyd i'w cartref eu hunain gyda gofal priodol.

Roedd gallu darparu gwelyau ychwanegol mewn ysbytai cymunedol yn cynyddu'r capasiti yn ystod y gaeaf. *Mae rhai cleifion wedi bod mewn gwelyau dros dro yn hirach na’r disgwyl, gan nad oedd Pecyn Gofal a’r dewis o leoliad ar gael.*

**Roedd 95% o’r gwelyau â rhywun ynddynt trwy gydol y cyfnod pan oedd yr ysbytai'n gallu derbyn cleifion.**

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd pymtheg o gleifion eu rhyddhau yn gynt drwy’r llwybr rhyddhau i wella yna asesu, a oedd yn rhyddhau capasiti ar gyfer cleifion mewnol ar adeg pan oedd Powys yn dioddef achosion o Covid-19 yn ei hysbytai cymunedol. Roedd y broses hon hefyd yn caniatáu i gleifion gael eu hasesu mewn amgylchedd sy'n fwy ffafriol i'w hanghenion ac yn rhoi mwy o amser i staff cartrefi gofal gasglu tystiolaeth gan arwain at asesiadau cynhwysfawr.

Eleni cafodd pwysau arferol y gaeaf eu dwysáu'n fawr gan y pandemig. Roedd sicrhau bod staff yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd ychwanegol yn nifer y rhai a oedd yn cael eu derbyn i’r ysbyty yn heriol iawn ar adegau, yn enwedig pan oedd staff yn dal y feirws neu'n gorfod hunan-ynysu. Gwers a ddysgwyd yn ystod cyfnod y gaeaf eleni oedd yr angen i weithio'n agosach gyda'r Tîm Gofal Cymhleth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Rhyddhawyd 90 o gleifion o dan y broses rhyddhau i adfer yna asesu.



HENEIDDIO'N DDA

## Cefnogi pobl hŷn i aros yn annibynnol gartref

Cwmni menter gymdeithasol a budd cymunedol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys i helpu pobl i sefydlu busnesau gofal bychan yn eu hardaloedd yw Catalyddion Cymunedol.

Mae angen cefnogaeth wedi'i deilwra ar lawer o bobl i fyw eu bywydau, boed hynny gyda gofal personol, help gyda siopa, coginio, neu ychydig o gwmnïaeth - mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r rhain i gyd. Mae cyfanswm o 43 o fentrau cymunedol bellach wedi'u sefydlu ym Mhowys.

Mae rhywfaint o'r angen cynyddol am ofal yn cael ei ddarparu gan y microfentrau cymunedol hyn gan felly atgyfnerthu capasiti'r darparwyr gofal cartref cofrestredig. Mae pwysau arbennig wedi bod yn y Gogledd ac mae'r Catalydd Cymunedol wedi gweithio'n galed i gael cymorth pobl leol. Mae un busnes wedi cymryd camau i gael ei gofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r diddordeb yn y prosiect hwn yn tyfu'n gyflym ac mae'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael yn cael ei deimlo gan lawer. Gyda'i gilydd, mae'r microfentrau hyn yn dod ag 800 awr o ofal ychwanegol yr wythnos i'r system iechyd a gofal.

Eleni fe wnaeth y bartneriaeth ragnodi 816 o eitemau o dechnoleg i 695 o drigolion, i ddarparu gofal a chymorth gartref. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio technoleg cost-effeithiol i helpu i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach, gan hefyd leihau'r gofynion ar ofalwyr. Gall y dechnoleg sbarduno galwadau awtomatig am gymorth a chaniatáu i aelodau o'r teulu gadw llygad o bell ar anwyliaid.

**Amcangyfrifir bod gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg ym Mhowys wedi arbed £483,510 i ofal cymdeithasol eleni.**

Mae cyfeillion yn cefnogi unigolion ynysig dros 50 oed i gynnal eu hannibyniaeth a gwella eu bywydau cymdeithasol. Gyda dros 100 o gyfeillion gweithredol ym Mhowys mae'r gwasanaeth bellach yn cynnig cefnogaeth a chwmnïaeth i dros 600 o bobl ac mae'r gwasanaeth yn parhau i dyfu bob blwyddyn.

Mae'r cyfeillion yn helpu i hybu dewis personol, cynyddu hunanwerth, a datblygu sgiliau.

Mae grwpiau cyfeillio wedi dechrau cwrdd wyneb yn wyneb eto ac maent yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol cyffredinol a diddordeb arbenigol. Mae ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu ynghyd â grwpiau ar-lein. Eleni roedd 17 o grwpiau ar-lein yn cael cefnogaeth a 26 o grwpiau wyneb yn wyneb.

**Yn ôl arolwg bodlonrwydd gwirfoddolwyr roedd 95% o'r cyfeillion yn fodlon yn eu rôl, a 97% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n llai unig ac ynysig y llynedd oherwydd eu cyfaill.**

Mae Waled Rithwir bellach ar gael i bob un sy'n derbyn taliad uniongyrchol ym Mhowys. Mae Waled Rithwir yn cael ei ddefnyddio i annog mwy o unigolion i gymryd rôl weithredol wrth reoli eu taliad uniongyrchol eu hunain.

Mae cyflwyno Waled Rithwir yn cael ei reoli mewn dau gam ar wahân:

- **Yng ngham un, bydd yr holl daliadau uniongyrchol newydd yn cael eu rheoli drwy Waled Rithwir a gall derbynwyr taliadau uniongyrchol presennol ofyn i gael rheoli eu taliadau trwy Waled Rithwir.**
- **Yng ngham dau, bydd rhai taliadau uniongyrchol 'cyfrif a reolir' hefyd yn cael eu symud i Waled Rithwir.**

Mae'r ymgyrch y system waled rithwir newydd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r system ar gyfer staff sy'n gweithio gyda theuluoedd ym Mhowys.

Mae Shirley yn darparu gofal i bobl hŷn a phobl ag anableddau trwy ficrofenter gymunedol o'r enw Heartfelt Care Services, sydd wedi'i leoli yn Llanfair-ym-Muallt. Mae'n rhoi cymorth i bobl trwy ran helaeth o ganolbarth Powys.

Meddai Shirley: **"Gofalwyr ydyn ni, a dylwn i ddim gorfod bod yn rhuthro o gwmpas, yn rhedeg ar ôl fy ngheiniogau. Dw i yma i ofalu ac edrych ar ôl pobl, dyna lle dw i'n treulio 11 neu 12 awr o fy niwrnod. Does gen i ddim amser i fod yn gwneud gwaith gweinyddol adrannau eraill. Dw i'n gweld, gyda Waled Rithwir, fy mod wastad yn cael fy nhalu ganddyn nhw. A dw i'n cael fy nhalu ganddyn nhw ar amser, ac maen nhw'n ymatebol, ac maen nhw wedi ei wneud yn iawn o'r diwrnod cyntaf. Hyd yn hyn, dydw i ddim wedi cael unrhyw drafferthion gyda Waled Rithwir"**

## Powys | Waled Rithwir (myvirtualwallet.co.uk)




Dywedodd mam sydd wedi bod yn defnyddio Waled Rithwir i helpu i gefnogi ei merch ac sy'n ei chael hi'n llawer haws i'w reoli na phan oedd ganddyn nhw daliadau uniongyrchol yn flaenorol: '**Y tro diwethaf gwnaeth achosi tipyn o straen i mi, achos o'n i'n poeni os nad oeddwn i'n gwneud rhywbeth yn iawn, doedd y person yna ddim yn mynd i gael ei dalu'**

Profiad gŵr a gofalwr di-dâl: **'Rwy'n ei chael hi'n hawdd iawn i'w ddefnyddio, ac mae'n hawdd iawn edrych yn ôl a gweld pa oriau a wnaed a phryd a lle.'**

# Llety i bobl hŷn



Mae cynlluniau Gofal Ychwanegol y sir wedi datblygu'n dda eleni. Mae adeilad hanesyddol Neuadd Maldwyn yn Y Trallwng yn cael ei adfer a'i ymestyn mewn modd addas fel rhan o'r rhaglen ddatblygu. Bydd yn darparu cyfoeth o wasanaethau a darpariaethau ar y safle i'w defnyddio gan drigolion a'r gymuned leol.

Mae gwaith ar y gweill i ddarparu 66 o fflatiau gofal ychwanegol un a dwy ystafell wely fforddiadwy i'w rhentu i bobl dros 60 oed. Bydd y cynllun yn cynnig byw'n annibynnol ynghyd â gofal a chymorth, gan lenwi bwlch o dai ar gyfer pobl hŷn yn yr ardal. Bydd trigolion y Trallwng yn cael blaenoriaeth i'r fflatiau newydd ar ôl eu cwblhau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar gynllun Pont Aur yn Ystradgynlais fydd yn gweld llety Gofal Ychwanegol yn cael ei ddarparu yn ne'r sir am y tro cyntaf. Bydd yr adeilad presennol yn cael ei ailfodelu o fod yn dai gwarchod i fod yn dai Gofal Ychwanegol. Bydd estyniad hefyd yn darparu 10 fflat ychwanegol, gan alluogi cynllun Pont Aur i gynnig 41 o dai fforddiadwy i'w rhentu ar gyfer pobl hŷn lleol. Bydd gan bob fflat ystafelloedd gwely hygyrch, ystafell eistedd, ardal gegin ar wahân a chawod cerdded-i-mewn a bydd gan y datblygiad cyffredinol fannau cymunedol, larymau cymunedol a mynediad at ofal wedi'i alluogi gan dechnoleg.

Mae gwaith cynllunio hefyd wedi dechrau ar gynllun gofal ychwanegol Aberhonddu. Defnyddiwyd Cyllid Gofal Integredig Cenedlaethol i brynu safle priodol. Y gobaith yw y bydd y maes parcio cyfagos hefyd yn cael ei brynu er mwyn gallu bod â'r datblygiad mwyaf posibl, sef hyd at 60 o fflatiau gofal ychwanegol fforddiadwy ag un neu ddwy ystafell wely. Bydd y cynllun yn cynnig byw'n annibynnol wedi'i gyfuno â gofal a chefnogaeth ochr yn ochr â llu o gyfleusterau cymunedol sy'n agos iawn at amwynderau canol y dref ac yn gyfagos i'r derfynfa fysiau

Mae'r Bartneriaeth Heneiddio'n Dda wedi dysgu o'r gwahanol brosiectau a amlinellir uchod a byddant nawr yn ceisio datblygu'r rhain gyda chymorth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd. Bydd gwaith y bartneriaeth yn cyd-fynd yn dda â modelau gofal newydd wrth symud ymlaen.







HENEIDDIO'N DDA

# GWAITH TRAWSBYNCIOL

## Gofalwyr

Darperir gwasanaeth gofalwyr y bartneriaeth gan Credu, elusen gofrestredig ar gyfer gofalwyr ym Mhowys. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Credu wedi cefnogi **1,796** o ofalwyr ledled y sir trwy amrywiaeth o brosiectau a dulliau cefnogi. Mae'n parhau i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel sy'n galluogi gofalwyr i gael mwy o ymdeimlad o les, teimlo'n fwy cysylltiedig ag eraill, a theimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw.

**Darparwyd 559 o gyfleoedd seibiant newydd i ofalwyr eleni.**

Mae gofalwyr di-dâl o bob oed yn cael eu cefnogi i gynrychioli eu hunain ac eraill ym Mhowys ac mae Credu yn parhau i wrando ar Ofalwyr ar sut olwg sydd ar seibiant iddyn nhw, gan ddarparu cyfleoedd seibiant creadigol ac arloesol. Maent hefyd wedi datblygu offer i gyrraedd mwy o Ofalwyr, eleni fe wnaethant nodi 504 o ofalwyr newydd nad oeddynt yn ymwybodol ohonynt yn flaenorol.

Mae gwaith ymgysylltu Credu ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost wedi cyrraedd dros **90,000** o bobl eleni, gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i Ofalwyr. Mae eu prosiect Codi Ymwybyddiaeth hefyd wedi cefnogi sefydliadau i helpu i nodi a chefnogi Gofalwyr.






## Cymraeg

Mae Grŵp Her a Chefnogi'r Gymraeg y bartneriaeth yn cefnogi partneriaid i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddwyieithog. Mae'r Cynnig Gweithredol yn helpu sefydliadau â'u defnydd o'r Gymraeg fel y nodir ym mholisi 'Mwy na Geiriau / More than Just Words' Llywodraeth Cymru.

Mae prosiect wedi'i ariannu sy'n cynnig cymorth â’r Cynnig Gweithredol **(darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano)** i sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r project yn cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr sy'n cynnwys talu costau cyfieithu untro, helpu sefydliadau i ddatblygu cynllun gweithredu Cymraeg, yn ogystal â darparu hyfforddiant.

Fe wynebodd y prosiect heriau eleni yn ymwneud â Covid-19 a phrinder staff. Fodd bynnag, mae hyrwyddo'r prosiect ar gyfryngau cymdeithasol yn gwella ymgysylltu, a phob wythnos mae ffeithlun newydd yn cael ei uwchlwytho yn hyrwyddo 'gair yr wythnos'. Cafwyd adnoddau eraill gan gynnwys cardiau fflach a llyfrau ymadroddion i gefnogi grwpiau.

Eleni derbyniodd y prosiect Cynnig Gweithredol 39 o ymholiadau cyffredinol am y Gymraeg, ac arweiniodd 26 ohonynt at well defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau.

## Gwella'r Daith Canser



Dechreuodd ail flwyddyn y rhaglen Gwella'r Daith Canser ym Mhowys (sy'n cael ei ariannu gan Gymorth Canser Macmillan ac mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys) gyda lansio tri phrosiect treialu sy'n cynnig pecyn cymorth personol, i bobl ym Mhowys sydd wedi cael diagnosis o ganser, wedi'i deilwra drwy ddefnyddio offeryn asesu anghenion electronig Macmillan (eHNA).

Gwelodd Credu, Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol PAVO ac Ymddiriedolaeth Bracken werth cynnig o'r fath, a hyfforddwyd nhw i ddefnyddio yr eHNA ac maent bellach yn ei gynnig i bobl sy'n byw gyda chanser ym Mhowys. Mae gwaith bellach yn bwrw ymlaen i gynyddu atgyfeiriadau ymhellach trwy'r Arbenigwyr Nyrsio Canser mewn ysbytai sy'n rhoi diagnosis a thrin cleifion o Bowys drwy ofal sylfaenol. Mae rhwydwaith hyfforddi a chefnogi cymheiriaid yn caniatáu i'r gweithwyr cyswllt rannu arferion da a datblygu eu sgiliau.

Yn gynnar yn 2022, cofrestrodd tîm gofal lliniarol y bwrdd iechyd hefyd i ddefnyddio fersiwn newydd o'r eHNA sydd wedi'i deilwra i'r anghenion a'r pryderon ychwanegol sy'n codi yn dilyn prognosis neu ddiagnosis terfynol/lliniarol.

Ochr yn ochr â gweithio i gynyddu cynnig yr eHNA fe wnaeth tîm y rhaglen y canlynol:

- **Creu casgliad o 15 o straeon cleifion a'r themâu allweddol sy'n digwydd dro ar ôl tro i bobl**
- **Mynychu Cynhadledd Genedlaethol Macmillan a gwneud cyflwyniad yng Nghynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru**
- **Gwneud cais llwyddiannus am grant o Gronfa Elusennol y bwrdd iechyd i brynu pedair set o 50 o lyfrau a argymhellir, sydd bellach ar gael i'w benthyg, drwy Lyfrgelloedd Powys**
- **Parhau i gyd-gynhyrchu deunyddiau cyfathrebu Gwella'r Daith Canser gyda mewnbwn gan y fforwm Journeying Together a sefydlwyd i sicrhau bod llais y claf wrth wraidd y rhaglen, gan gynnwys llythyr i feddygon teulu ei anfon**
- **Cwblhau darn o waith Theori Newid i gefnogi ac ysgogi cam nesaf y rhaglen**
- **Cychwyn trafodaethau i archwilio cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o asedau Powys, gan gynnwys llyfrgelloedd, safleoedd Freedom Leisure, a chefn gwlad ac ardaloedd hamdden**

Gallwch ddod o hyd i Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Gwella'r Daith Canser, y casgliad o straeon, y dogfennau Theori Newid, a'r Cylchlythyr Gwella'r Daith Canser cyntaf ar y dudalen we. **https://cy.powysrpb.org/icjpowys** neu **ewch i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys - YouTube** i weld cleifion canser, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn rhannu eu profiadau a'u meddyliau ar y prosiect.

**Rhaglen Gwella'r Daith Canser ym Mhowys**

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board — Powys — Cymorth Canser Macmillan

## Hyb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant Powys


Mae Hyb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant Powys (RIIC) yn un o rwydwaith o Hybiau ledled Cymru. Ariennir yr Hybiau gan Lywodraeth Cymru i gydlynu a chefnogi'r holl weithgarwch ymchwil, arloesi a gwelliant ledled ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.




Sefydlwyd yr Hyb ym mis Mai 2020 ac mae wedi gwella ansawdd a gwerth y gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwelliant yn ardal ein BPRh a hefyd wedi cyfrannu dysgu a syniadau i'r rhwydwaith ehangach o ganolfannau RIIC ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi cefnogi'r ymdrech i ymateb Covid-19 a'r ymgyrch brechu torfol yn ogystal â chasglu'r mewnwelediadau a'r gwersi a ddysgwyd gan staff y bwrdd iechyd ynghylch eu profiadau o weithio yn ystod y pandemig. Datblygodd tîm yr hyb geisiadau cyllid cydweithredol ar gyfer ymchwil ac arloesedd deallusrwydd artiffisial gyda phartneriaid academaidd a diwydiant yn ogystal â chefnogi ymchwilwyr unigol drwy eu taith.

Cafodd Cynllun Ymchwil, Arloesi a Gwelliant o'r newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf ei ddatblygu a sicrhawyd cyllid ar gyfer blwyddyn arall i gwblhau'r gwaith hwn. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r BPRh i gael dull a ategir gan ethos a diwylliant a sefydlwyd ar ymchwil, arloesi a gwelliant.







## Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol

Mae llawer o'r gwaith sy'n ymwneud â Chyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol wedi'u gweu i'r adroddiad ond mae'n werth tynnu sylw yma i rai darnau allweddol o waith a'n dull yn yr adran hon:

## Cynrychiolwyr Dinasyddion a Gofalwyr

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn falch o'r gwaith mae'n ei wneud wrth gefnogi dinasyddion a gofalwyr i ymwneud â gwaith y bartneriaeth. Mae gan y Bwrdd ddau gynrychiolydd dinasyddion a dau gynrychiolydd gofalwyr sy'n aelodau llawn o'r BPRh ac yn gyfartal â'r holl aelodau eraill.

**Mae cyfraniad y cynrychiolwyr hyn nid yn unig yn llywio ac yn llunio penderfyniadau, ond mae'n parhau i ddarparu ffordd well o nodi a mynd i'r afael â'r 'hyn sy'n bwysig' i bobl.**

Mae ystod eang o grwpiau defnyddwyr a darparwr sy'n ymwneud â gwaith y Bwrdd, ac maent yn gwneud hyn drwy wneud sylwadau ar waith arfaethedig, gan helpu i recriwtio i swyddi allweddol, a llywio prosesau a gweithdrefnau amrywiol.  Yn ystod y flwyddyn cymerodd cynrychiolwyr dinasyddion/gofalwyr ran mewn 40 o gyfarfodydd BPRh a chyfarfodydd Grŵp Llywio Gofalwyr.

Mae'r bartneriaeth yn parhau i ariannu swydd Swyddog Cefnogi Aelodau Dinasyddion sydd wedi cryfhau'r berthynas â chynrychiolwyr dinasyddion a gofalwyr ac wedi rhoi mwy o gefnogaeth iddynt ymgysylltu'n llawn. Mae'r pwyslais ar gefnogi sefydlu, hyfforddi a chyfarfodydd cyn cyfarfodydd bwrdd rheolaidd yn galluogi aelodau dinasyddion i gymryd rhan a bod yn aelodau hyderus o'r Bwrdd. Mae'r dull hwn ym Mhowys wedi ei argymell gan Lywodraeth Cymru fel model i'w gyflwyno ar draws pob BPRh yng Nghymru





Chwaraeodd y swyddog cymorth a'r aelodau dinasyddion rôl weithredol yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru i lunio siarter i ddinasyddion ac i gyd-ddylunio atebion i gefnogi cynrychiolwyr dinasyddion, gofalwyr, trydydd sector a darparwyr. Mae'r swydd Cymorth i'r Aelodau Dinasyddion (BPRh) wedi'i chynnwys yn Siarter aelodau defnyddwyr, gofalwyr, trydydd sector a darparwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

**"Mae wedi bod yn ddiddorol iawn gweld sut mae BPRh eraill drwy Gymru yn gweithio gyda'u cynrychiolwyr dinasyddion ac er nad oes gennym ni yr holl atebion yma ym Mhowys rydym ni ymhell ar y blaen."**

Cynrychiolydd Dinasyddion ar ôl cymryd rhan yng ngrŵp Llywodraeth Cymru


## Strategaeth Ymgysylltu Parhaus

Mae BPRh Powys yn cydnabod pwysigrwydd dull ymgysylltu parhaus i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â dinasyddion Powys ar draws partneriaid y BPRh, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, a gwneud y mwyaf o lais ac effaith i bobl.

Bydd y BPRh yn datblygu strategaeth gan adeiladu ar sylfaen gref o ymgysylltu â phobl ym Mhowys fel partneriaeth, yn fwyaf nodedig:

- **Ymgysylltu â dros 1,000 o bobl i ddatblygu gweledigaeth y dyfodol ar gyfer iechyd a gofal ym Mhowys i 2027**
- **Digwyddiadau ymgysylltu helaeth ledled gogledd y sir i helpu i lunio a llywio'r model integredig newydd o ofal a lles ar gyfer Powys.**
- **Partneriaid yn ymgysylltu â phobl ledled y sir ac yn annog pawb i rannu meddyliau a syniadau fel rhan o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth**
- **Datblygwyd Fframwaith Strategol Dyfodol y Gweithlu mewn partneriaeth â dros 300 o gydweithwyr o bob rhan o'r sector Iechyd a Gofal ym Mhowys ac mae'n ystyried gweithio system gyfan.**
- **Mae llais dinasyddion, gofalwyr, y trydydd sector a darparwr yn parhau i gael ei gefnogi drwy fforymau ymgysylltu a dulliau ymgysylltu ehangach.**

## Offer a chyfryngau digidol ar gyfer ymgysylltu




Rydym wedi parhau i ddatblygu gwelliannau digidol a chyfleoedd yn ymwneud ag ymgysylltu. Mae gwefan BPRh Powys a'r cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig yn parhau i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Bydd datblygu a hyfforddiant pellach ar draws yr holl bartneriaid ar Engagement HQ yn y rhanbarth i gefnogi dulliau ymgysylltu digidol ar gyfer partneriaid a rhaglenni partneriaeth allweddol y BPRh.


### Bu 23,638 o ymweliadau â gwefan Dweud Eich Dweud Powys ac mae 6,406 o ymwelwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu ers lansio platfform Engagement HQ ym mis Mai 2021

Trwy gyfrwng Engagement HQ, gall y bartneriaeth gael mynediad at yr offer ymgysylltu diweddaraf fel arolygon barn cyflym, tanysgrifio cymdeithasol, a grwpiau ffocws ar-lein, i helpu i nodi meddyliau pobl mewn modd amserol.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y dull strategol o ymgorffori ymgysylltiad parhaus ym Mhowys yn ceisio adeiladu ar y sylfaen hon er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig ar draws y rhanbarth.

## Gwerth Cymdeithasol

Mae Gwerth Cymdeithasol yn cyfeirio at ethos o barch, cydweithio ac ymdrech ar y cyd tuag at sicrhau canlyniadau lles i gymunedau. Erbyn hyn mae gan Fforwm Gwerth Cymdeithasol y bartneriaeth dri ar ddeg o rwydweithiau bro dan arweiniad y Cysylltwyr Cymunedol. Mae'r rhwydweithiau'n agored i bob parti sydd â diddordeb boed yn unigolion, yn fusnesau preifat, neu’n sefydliadau gwirfoddol. Mae pob sector ar draws mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan.



Nod y fforwm yw annog sector gwerth cymdeithasol llewyrchus sy'n gallu ac sy’n barod i gyflawni cyfleoedd darparu gwasanaethau. Yn ystod y pandemig byd-eang, cyflawnodd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol, a oedd newydd ei ailstrwythuro, rôl allweddol o ran cefnogi a chydlynu ymateb y trydydd sector yng nghymunedau Powys, ochr yn ochr ag ymateb partneriaid statudol.

Arweiniodd PAVO hyn mewn cydweithrediad agos â phartneriaid ac ailenwyd y fforwm yn Grŵp Ymateb Argyfwng y Sector Cymunedol (CSERT).

Mae Grŵp Ymateb y Sector Cymunedol (CSRG) yn gweithredu mewn tair ffordd wahanol, gyflenwol a rhyng-gysylltiedig:

1. **Hwyluso 13 rhwydwaith cymunedol lleol sy'n ceisio ysgogi a harneisio gweithredu cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella lles unigolion, aelwydydd a chymunedau.**
2. **Datblygu gwirfoddoli yng ngweithgareddau strategol a gweithredol BPRh Powys.**
3. **Darparu cyllid ar gyfer gweithredu gwerth cymdeithasol a benderfynir yn lleol sy'n cyfrannu at ddarparu mentrau a gwasanaethau cydweithredol sy'n helpu i gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar bobl fel y nodwyd yn Strategaeth Iechyd a Gofal y BPRh.**

Mae grŵp cydlynu CSRG yn cwrdd yn rheolaidd i alluogi cynrychiolwyr o'r rhwydweithiau lleol i ymgysylltu â phartneriaid y BPRh, ac i rannu gwybodaeth, yr hyn a ddysgwyd ac arferion gorau. Mae'r grŵp cydlynu hefyd yn derbyn gwybodaeth a data gan y rhwydweithiau, ynghyd â gwybodaeth gan y gwasanaethau cysylltydd cymunedol a phartneriaid eraill. Mae hyn yn galluogi'r CSRG i nodi bylchau a gwendidau mewn gwasanaethau ac i ddod i gasgliad o ran angen nad yw wedi’i ddiwallu.

Defnyddir y dystiolaeth hon i gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer y cyllid sydd ar gael trwy'r CSRG i'r sector gwerth cymdeithasol. Mae'r dull hwn wedi gweithio'n dda ac felly wedi'i ddefnyddio pan fo angen i bartneriaid ddosbarthu arian ychwanegol ac ar wahân a wnaed ar gael gan y llywodraeth a ffynonellau eraill, er enghraifft, Pwysau'r Gaeaf, Grantiau Cymunedol Comic Relief a Grantiau Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol.

Mae grŵp goruchwylio CSRG, sy'n cynnwys uwch gyfarwyddwyr o CSP, BIAP a PAVO, yn cwrdd bob dwy flynedd i sicrhau bod y CSRG yn cyd-fynd â blaenoriaethau a rennir ac yn gweithredu yn unol â gofynion ac arweiniad statudol.

Gwnaed llawer o gynnydd gan a thrwy Fforwm Gwerth Cymdeithasol Powys, y CSRG. Isod ceir crynodeb o'r brif wybodaeth o fis Mawrth 2022:

**Parhaodd twf y llu o Wirfoddolwr Iechyd a Gofal ym Mhowys.**

- **798 o wirfoddolwyr wedi cofrestru**
- **421 o wirfoddolwyr cofrestredig newydd**
- **493 o gyfleoedd gwirfoddoli**
- **201 o wirfoddolwyr newydd wedi'u rhoi mewn lleoliadau iechyd**
- **1379 o wirfoddolwyr wedi'u rhoi mewn lleoliadau cymunedol**

**Ariannu nifer o fentrau gwerth cymdeithasol sydd wedi helpu i gynnal a gwella lles unigolion, aelwydydd a chymunedau.**

- **281 o fentrau gwerth cymdeithasol newydd wedi'u cefnogi a'u datblygu**
- **£274,500 wedi'i ddosbarthu i ariannu 43 menter gwerth cymdeithasol. Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â'r mentrau hyn yn Atodiad 3. Mae gwybodaeth am fonitro, hyd yma, yn dangos bod dros 2100 o fuddiolwyr wedi'u cefnogi ac mae dros 240 o wirfoddolwyr wedi bod yn rhan o'r broses.**

**Ysgogi a harneisio gweithredu cymunedol drwy 13 o rwydweithiau cymorth lleol ledled Powys.**

- **Gwnaeth pob rhwydwaith gwrdd o leiaf bob chwarter**
- **502 o gyfranogwyr mewn rhwydweithiau**
- **102 o sefydliadau sy'n ymwneud â rhwydweithiau**

Mae effaith y gweithgaredd hwn yn cael ei nodi drwy arolygon ac astudiaethau achos. Mae canlyniadau'r arolygon yn dweud wrthym:

## Roedd 90% o'r gwirfoddolwyr yn fodlon iawn â'r cymorth a'r gwasanaethau

## Roedd 81% o gyfranogwyr y rhwydwaith o'r farn eu bod yn werth chweil

Mae cefnogaeth y sector gwerth cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol i i BPRh Powys. Bwriedir cynnal sesiynau datblygu ar gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu a chyfranogiad effeithiol dinasyddion a gofalwyr ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd y BPRh yn sicrhau bod egwyddorion cyd-gynhyrchu yn llinyn sy'n rhedeg drwy holl strwythur llywodraethu y BPRh, ac nid yn rhywbeth sy'n gyfyngedig i nifer fach o unigolion sy'n mynychu bwrdd neu bartneriaeth benodol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dulliau ymwneud presennol fel rhwydweithiau a fforymau a chreu cyfleoedd newydd. Bydd hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'w cynnwys drwy blatfformau digidol ac ar-lein, yn bennaf y cyfryngau cymdeithasol. Bydd cyfranogiad o'r fath yn helpu'r BPRh i sicrhau bod ei Gynllun Ardal yn canolbwyntio'n barhaus ar ddinasyddion ac yn cael ei arwain gan bobl.

Mae gan y trydydd sector, a bydd yn parhau i fod â rôl allweddol wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r arian gwerth cymdeithasol sydd ar gael i'r sector. Mae'r blaenoriaethau, o fewn fframwaith Strategaeth Iechyd a Gofal Powys, yn cael eu nodi gan y CSRG.

# YMATEB I'R GAEAF A CHADERNID SYSTEMAU

Gwnaeth y gaeaf achosi heriau a gwaethygu ymhellach y pwysau ar y gwasanaethau iechyd, gofal, y trydydd sector a chymunedol. Defnyddiodd BPRh Powys ei sylfaen o gydweithio i gefnogi partneriaid i ymateb a pharhau i helpu pobl ym Mhowys yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cafodd prosesau cynllunio ychwanegol eu sefydlu er mwyn cefnogi ardaloedd blaenoriaeth allweddol yn y gaeaf yn y tymor byrrach ag arian ychwanegol wedi ei fuddsoddi ar draws y bartneriaeth. Roedd hyn yn ein galluogi i fodloni Fframwaith Cynllun Gaeaf ehangach Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a chefnogi pobl ym Mhowys. Roedd blaenoriaethau'n canolbwyntio ar osgoi derbyniadau i'r ysbyty, rhyddhau cleifion o'r ysbyty, cefnogaeth gartref, ac atal ac ymyrraeth gynnar.

Ail-sefydlwyd y Grŵp Cydlynu Cyflawni (DCG) a sefydlwyd yn wreiddiol o dan drefniadau wrth gefn COVID, fel grŵp rheoli gweithredol ar draws partneriaid allweddol ym maes iechyd, gofal, a'r trydydd sector i gefnogi cynllunio a chyflawni drwy'r gaeaf. Helpodd hyn i greu cyfleoedd i bartneriaid fynd i'r afael â materion mawr ar y cyd a dod o hyd i atebion i ddiwallu anghenion pobl.

Defnyddiwyd arian y gaeaf (£433,000) i:

- Sefydlu model Rhyddhau i Asesu newydd ar gyfer cleifion o dan lwybr 3 a oedd yn aros am Offeryn Cymorth Penderfyniadau o dan y Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus. Helpodd y dull hwn i hwyluso rhyddhau cleifion yn brydlon o leoliadau ysbyty pan oedd yn ddiogel i wneud hynny.
- Cefnogi darpariaeth ychwanegol y Gwasanaeth Offer Cymunedol, a gafodd effaith fawr wrth atal derbyniadau i'r ysbyty ac oedi cyn trosglwyddo gofal drwy ddarparu offer cymunedol effeithlon ac integredig.




Bu Cronfa Graddfa Trawsnewid D2RA (£250,000) yn helpu i ariannu prosiectau a arweinir gan y trydydd sector i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Er i'r gronfa hon geisio ymgorffori newidiadau tymor hirach, ei heffaith ar unwaith oedd cefnogi rhywfaint o'r pwysau tymor byr ar y system, gan gynnwys:

- Gwelliannau yn y Trydydd Sector: *Cefnogaeth Allgymorth Cymunedol, Gwybodaeth a Chyngor* Age Cymru a ddarparodd wasanaeth cymorth cofleidiol i leihau'r effaith ar bobl hŷn yn mynd adref o'r ysbyty a darparu ymyriadau ataliol i bobl hŷn oedd mewn perygl o fynd i'r ysbyty; mwy *o Wasanaeth Adref o'r Ysbyty* yn ardal Llandrindod; a phrosiect *Cydlynwyr Florence y Trydydd Sector* a fu'n archwilio'r defnydd o 'Florence' yn y trydydd sector - system teleiechyd sy'n defnyddio negeseuon testun i gefnogi cleifion i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, a grymuso cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- Gwnaeth y prosiect *Cymorth Symud ag Urddas* recriwtio tîm o Gynorthwywyr Therapi Galwedigaethol i wella darpariaeth a chanlyniadau y gwaith hwn ym Mhowys. Mae'r Cynorthwywyr Therapi Galwedigaethol yn cefnogi gweithredu cynlluniau'r Therapi Galwedigaethol gan weithio ochr yn ochr â'r darparwyr gofal a sicrhau asesiadau ac offer amserol.
- Fe wnaeth prosiect *Gweithio 7 Diwrnod y Tîm Therapi Cymunedol* gynyddu'r gwasanaeth Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu Gartref yn Gyntaf presennol (1 a 2) i ddarparu cymorth cofleidiol i unigolion wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty ar 7 diwrnod gwaith, yn hytrach na 5. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i fwy o gleifion wella a chael eu hasesu yn eu cartrefi eu hunain a chael unrhyw gymorth parhaus pe bai angen.

Roedd nifer o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig hefyd yn cefnogi pwysau'r gaeaf a'r system trwy eu gwaith, mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Bu gan y *Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol* rôl hanfodol drwy gefnogi nifer sylweddol o gleientiaid i gael cymorth ataliol trydydd sector a chymorth gartref o'r ysbyty.
- Parhaodd y *Gwasanaeth Cymorth Cartref* i leddfu'r pwysau ar weithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill trwy ei waith ataliol ac ymyrraeth gynnar (amcangyfrifir bod y costau a arbedwyd yn sgil y gwasanaethau hynny tua £43,500)
- Yn sgil cefnogaeth y *Tîm Trin Dementia yn y Cartref* lleihawyd derbyniadau i'r ysbyty drwy gefnogi pobl yn eu hamgylchedd cartref neu mewn lleoliadau cymunedol.
- Bu'r *Gwasanaeth Broceriaeth Uwch* yn trafod lleoliadau a thenantiaethau ar draws ystod o wahanol lety a gwasanaethau gofal cartref er mwyn hwyluso gwell llif cleifion, rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a gostyngiad yn nifer yr achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.

Mae rhagor o fanylion am y prosiectau hyn i'w gweld yn adrannau perthnasol i'r adroddiad.



Yn y pen draw, roedd y gaeaf yn her enfawr i'r system iechyd a gofal gan fod yr ymateb i Covid ac effaith Covid yn dal i gael sylw yn y rhanbarth. Ond cydnabyddir bod gweithio gyda'n gilydd ar draws y system yn hanfodol i gynnig yr ymateb gorau posibl yn wyneb yr her gyffredin hon. Lluniwyd adroddiad gwersi a ddysgwyd drwy arolygon a myfyrdodau a rannwyd a bydd yn sail i ddatblygu Cynllun Gaeaf wedi'i adnewyddu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

# DARPARU ADNODDAU AR GYFER Y GWAITH HWN

Mae'r Bwrdd yn defnyddio ei ddyraniad gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru fel adnodd allweddol.


Gwneir penderfyniadau ynghylch defnyddio cyllid y Gronfa Gofal Integredig ar y cyd gan aelodau'r Bwrdd. Mae'r cynigion ar gyfer sut y caiff ei ddefnyddio yn cael eu cyflwyno gan bartneriaethau'r Bwrdd (Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda) sy'n cynnwys cyfraniad rhanddeiliaid eraill a chynrychiolwyr dinasyddion/gofalwyr.

Mae gwariant cyllid y gronfa wedi cael ei fonitro'n agos. Mae hyn yn sicrhau rheolaeth ariannol dda o'r cyllid a hefyd yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl ohono. Mae cronfeydd ychwanegol hefyd wedi'u hymrwymo ar gyfer rhai prosiectau ac mae cyfraniadau sylweddol o amser ac adnoddau staff yn parhau.

Mae ffynonellau eraill o arian Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i helpu rhoi adnoddau ar gyfer gwaith, yn benodol Cyllid Trawsnewid. Wrth i'r BPRh barhau i'w ddatblygu bydd yn parhau i geisio cyfleoedd i gael gafael ar gyllid arall i sicrhau y cyrhaeddiad a'r effaith mwyaf posibl gan ei waith.

Rhai adnoddau eraill a ddefnyddiwyd yn 2021-22 oedd y Gronfa Graddfa Trawsnewid (Rhyddhau i Adfer ac Asesu), y Grant Capasiti Perfformiad a Gwerthuso a'r Grant Ymgysylltu Parhaus.

Dyma ddadansoddiad o'r arian a ddyrannwyd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys ar gyfer 2021-22:



# EDRYCH YMLAEN

Wrth edrych ymlaen, prif bwyslais y bartneriaeth yw adnewyddu ei rhaglen waith yn dilyn Covid-19. Bydd angen i sefydliadau adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o Covid-19 a pharhau i gydweithio'n agos fel rhan o ymdrechion partneriaeth i adnewyddu, adsefydlu ac adlewyrchu ar y pandemig, a'i ddefnyddio i helpu i gryfhau trefniadau partneriaeth wrth symud ymlaen. Mae hyn yn gyfle unigryw i harneisio'r gwaith ar y cyd a gyflymwyd eleni a gwneud y mwyaf o'r manteision hynny.

Bydd meysydd pwyslais allweddol penodol dros y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

**Cynllunio Strategol y Bartneriaeth** – Gan ystyried y newidiadau a welsom gydag effaith Covid-19 bydd yn bwysig i'r BPRh barhau i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd a myfyrio i helpu i sicrhau bod yr uchelgais tymor hir i wella iechyd a lles pobl ym Mhowys yn parhau i fod yn addas at y diben. Bydd angen i'r BPRh symud yn ôl i rôl gynllunio fwy strategol (gan ddatblygu adnewyddiad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth), ystyried cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol a cheisio datblygu Cynllun cydlynol a systematig ar draws partneriaid (Cynllun Ardal BPRh) sy'n tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithio integredig y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

**Datblygu Partneriaeth** – mae deall yr hyn sy'n gwneud partneriaeth effeithiol ac effeithlon yr un mor bwysig â chanolbwyntio ar y busnes partneriaeth allweddol. Bydd rhaglen o ddatblygu partneriaeth o'r newydd yn cael ei sefydlu fel rhan o ddysgu parhaus a diwylliant myfyriol o fewn y bartneriaeth.

**Gwerthuso ac Effaith** – bydd angen parhau â phwyslais ar ddeall a dangos lle mae gweithgarwch integredig yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, wedi'i lywio gan raglen werthuso ar draws ffrydiau ariannu y BPRh. Bydd ymdrechion o'r newydd i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a chwilio am gyfleoedd i'w ymwreiddio a'i gyflwyno ar raddfa fwy lle bo'n berthnasol yn hanfodol.

**Ymwreiddio a Chyflwyno ar Raddfa Fwy** – byddwn yn parhau i gyflwyno gweithgarwch sydd wedi dangos ffyrdd gwell o weithio a gwell canlyniadau i unigolion ym Mhowys, gan ganolbwyntio ar gynnal y gwaith hwn a'i gyflwyno ar raddfa fwy drwy drefniadau cyllido diogel, tymor hirach a chynaliadwy.

**Ymgysylltu â Phobl** – rhaid i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu a gweithio gyda dinasyddion Powys i helpu i lunio a datblygu gwaith y BPRh barhau i fod wrth wraidd y bartneriaeth. Bydd ymdrechion o'r newydd y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar ehangu cyfleoedd i ddinasyddion ymgysylltu â'r bartneriaeth a galluogi pobl i rannu yn y llwyddiannau a gyflawnir drwy gydweithio.







Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

One Powys Yn Un

Powys Regional Partnership Board

Health and Social Care

[https://cy.powysrpb.org/](https://cy.powysrpb.org/)